homewards newport

GIG CYMRU NHS WALES | Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Homewards Casnewydd

Asesiad ar y Cyd o Anghenion Strategol Digartrefedd Menywod Casnewydd

Noddwr: Tracy Daszkiewicz, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus - Gwent

Awdur Arweiniol: Bevleigh Evans, Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd y Boblogaeth

Mewn partneriaeth â

NEWPORT CITY COUNCIL CYNGOR DINAS CASNEWYDD

CASNEWYDD SAFFACH SAFER NEWPORT

ROYAL FOUNDATION OF THE PRINCE AND PRINCESS OF WALES

THE NELSON TRUST

pobl

Cynnwys

Yn gryno 3

Pennod Un: **Cefndir, Diben, Cwmpas ac Effaith** 6

Pennod Dau: **Cyd-destun Cenedlaethol** 9

Pennod Tri: **Cyd-destun Lleol** 13

Pennod Pedwar: **Darpariaeth a Galw** 28

Pennod Pump: **Yr Heriau** 36

Pennod Chwech: **Ymarfer Gorau** 40

Pennod Saith: **Beth sy'n digwydd nesaf?** 41

Casgliad 45

Cyfeiriadau 47

Delweddau: Clawr blaen, tudalennau 6 a 22 – Canolfan Effaith Digartrefedd /Liam McBurney/PA Tudalen 3 – Canolfan Effaith Digartrefedd / Jeff Hubbard Tudalen 30 a chlawr cefn – Aaron Chown/PA Wire/ Canolfan Effaith Digartrefedd

Tudalen 14 – Cyngor Dinas Casnewydd

Yn gryno

Mae **Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu ar lefel uchel 2021-2026** (Llywodraeth Cymru, 2021) yn pwysleisio pwysigrwydd ymyriad cynnar ac atal mewn ateb digartrefedd menywod. Mae hyn yn cynnwys, **adnabod menywod mewn perygl**, gweithio **gyda gwasanaethau cam-drin domestig, trais rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol, darparwyr gofal iechyd**, a gwasanaethau cymdeithasol er mwyn adnabod menywod sydd mewn perygl o ddod yn ddigartref a chynnig cymorth cyn iddyn nhw fod mewn argyfwng.

Datblygu strategaethau atal digartrefedd wedi'u teilwra a ddyluniwyd yn benodol i gefnogi pob menyw, gan gynnwys y rhai sydd â phlant, y rhai sy'n dianc rhag trais domestig, menywod sy'n cael eu camfanteisio gan y diwydiant rhyw, a'r rhai sy'n ddioddefwyr mathau eraill o drais yn erbyn menywod a genethod. .

Ein ffocws yw creu gwasanaethau diogel, sensitif i rywedd sy'n deall ac yn ymateb i'r anghenion penodol hyn. Nid yw'n ymwneud â darparu llety dros dro yn unig, rydyn ni angen mwy o brosiectau wedi'u datblygu a'u comisiynu'n benodol ar gyfer menywod, gan gymryd dull integredig yn cynnig cymorth sy'n helpu menywod wella, ail-adeiladu, ac adennill sefydlogrwydd yn eu bywydau. Mae profiad sydd wedi'i fyw yn hanfodol bwysig. Cawsom y fraint bod menywod digartref wedi rhannu eu profiadau rydyn ni wedi'u rhannu trwy gydol yr adroddiad hwn; rydyn ni'n parchu eu bod yn dymuno parhau'n anhysbys.

I wirioneddol gwneud gwahaniaeth yng Nghasnewydd mae angen inni weithio gyda'n gilydd i roi diwedd ar ddigartrefedd trwy ganolbwyntio ar atal, rhoi'r cymorth i fenywod maen nhw ei angen cyn iddyn fod mewn argyfwng.

"Er nad yw pobl yn sylweddoli effaith fawr arwyddion bychain a gweithredoedd bach, rydyn ni'n aml yn gohirio gweithredu gan inni ei ystyried yn rhywbeth pitw neu o effaith isel sydd ddim yn wir. Roedd hyd yn oed gwên â'r gallu i fy nghyrraedd i bryd hynny."

I wneud hyn byddwn ni

Ar unwaith (Tachwedd 2024 – Mai 2025)



- Yn treialu cyfnod gweithredu gweithiwr ymyriad cynnar o fewn Cymorth i Fenywod Cyfannol trwy sefydlu anghenion unigol menywod sy'n profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn deall effaith. [4]
- Datblygu a pheilota Cyfrifiad Digartrefedd Menywod ar draws Casnewydd er mwyn asesu llawer o ffactorau allweddol sy'n hanfodol i ddeall ac ateb digartrefedd ymysg menywod a phlant.
- Dechrau ymgyrch i gefnogi newid y canfyddiad o fenywod sy'n ddigartref. Yr arddangosfa gelf 'Menywod Casnewydd' fydd yr ymgyrch gyntaf.
- Sefydlu llety diogel dros nos a gwasanaethau cymorth i fenywod, gan gynnig lloches yn ystod adegau heriol.
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i arddangos bod rhaid tynnu llochesau menywod o'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (2016).
- Datblygu gwaith gyda **Black Association of Women Step Out (BAWSO)** er mwyn deall angen ac effaith gwasanaethau ar gyfer menywod ethnig amrywiol yng Nghasnewydd.
- Datblygu dealltwriaeth o ddigartrefedd menywod, trwy ddatblygu data a gwybodaeth sy'n benodol i rywedd. Bydd hyn yn caniatáu i sefydliadau partner fel gwasanaethau cymdeithasol, tai, yr heddlu ac elusennau olrhain canlyniadau a chyfrannu at wella cymorth i'r rhai sydd mewn angen.

Yn y tymor canolig (Mai 2025 – Rhagfyr 2025)



- Cynnal y Cyfrifiad Digartrefedd ar draws Casnewydd er mwyn cael dealltwriaeth glir o drwch a difrifoldeb digartrefedd ymysg menywod a'r ffactorau risg sy'n arwain at ddigartrefedd.
- Newid y canfyddiad o fenywod sy'n ddigartref trwy 'Cerddwch yn fy esgidiau'; gweithgaredd sy'n rhoi'r cyfle i gael persbectif ehangach o beth mae menywod digartref yn ei brofi a sut mae'n teimlo i fod yn ddigartref a deall y straeon dynol.
- Datblygu'r model 'Tai Menywod yn Gyntaf' gyda Pobl a Chyngor Dinas Casnewydd gyda gwasanaethau cofleidiol wedi'u cefnogi gan wasanaethau iechyd ac arbenigol.
- Pob sefydliad partner i hunanasesu yn erbyn fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n ystyriol o drawma a datblygu cynllun gweithredu i blannu ymarfer sy'n ystyriol o drawma yng ngweithio pob dydd.

Yn y tymor hir (Rhagfyr 2025 ymlaen)

- Targedu ymyriad cynnar: Adnabod menywod mewn perygl o ddigartrefedd, fel y rhai sy'n wynebu cael eu troi allan, tor-perthynas, neu gam-drin domestig a thrais rhywiol, a chynnig gwasanaethau ataliol (e.e. cyngor tai, cymorth ariannol neu gymorth cyfreithiol).
- Ail gyfrifiad – mesur effaith ac angen sy'n ymddangos neu'n newid.
- Deall ac ateb sut gall gwasanaethau eu teilwra mewn ffordd sy'n addasu i anghenion pob menyw, gan gynnwys menywod o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y rhai ag anableddau, neu LHDTC+ sy'n wynebu gwahaniaethu mwy.
- Darparu llety diogel i fenywod sy'n gadael y carchar a'u diogelu rhag dychwelyd i amgylchedd a allai arwain iddyn nhw yn ôl at niwed blaenorol a chynyddu'r risg o aildroseddu. Nid yw'r ddarpariaeth gyfredol o hosteli yn cefnogi dull sy'n ystyriol o drawma i ailintegreiddio.
- Darparu llety sy'n fwy diogel i'r menywod hynny sy'n cael eu cam-fanteisio'n rhywiol trwy ddefnyddio egwyddorion y modelau cyfredol, a gomisiynwyd gan Gyngor Dinas Casnewydd, gan Gymorth i Fenywod Cyfannol (Tŷ Arcadia) a Pobl - Llety sy'n Cefnogi'r Rhai sydd ag Anghenion Cymhleth (Stryd Albert).
- Datblygu fframwaith comisiynu integredig sy'n cyflenwi gwasanaethau cofleidiol cynhwysfawr i ateb digartrefedd menywod, wedi'i deilwra i ateb anghenion amrywiol menywod â phlant, y rhai sy'n dianc rhag trais domestig, menywod wedi'u cam-fanteisio yn y diwydiant rhyw, a dioddefwyr eraill o drais wedi'i seilio ar rywedd.

Fel sefydliadau partner rydym yn cydnabod y **pwysigrwydd o weithio'n gydweithredol** ar draws Casnewydd, rydyn ni hefyd yn cydnabod heriau sylweddol digartrefedd yn ein hardal leol. Rydyn ni'n adnabod yr anghydraddoldebau sydd wedi arwain i'r sefyllfa hon a'r annhegwch mae menywod yn ei wynebu.

Mae'r data o amgylch digartrefedd menywod yn ddychrynllyd ac yn **alwad i weithredu** grymus. Mae hyn wedi'i fwyhau gan y gwaith rydyn ni wedi bod yn ei wneud mewn partneriaeth, gweithio gyda menywod sy'n byw heb do, eu straeon personol, eu hofnau, i rai oes o fregusrwydd a thrawma, yn gwneud hyn ein rheidrwydd cyfunol, i adnabod achosion a niweidiau sylfaenol a gweithio tuag at roi diwedd ar ddigartrefedd i'r genhedlaeth hon a'r rhai sydd i ddod.

Gadewch inni ymrwymo i wneud gwahaniaeth yng Nghasnewydd, i lwyddo i gael le diogel i bob menyw y gall ei alw'n gartref, mynediad at yr adnoddau mae hi eu hangen, a'r cyfle i adeiladu dyfodol gwell.

Pennod Un: **Cefndir, Diben, Cwmpas ac Effaith**

Cefndir

Mae **Homewards** [1] yn rhaglen drawsnewidiol bum mlynedd a lansiwyd gan y Tywysog William a Sefydliad Brenhinol Tywysog a Thywysoges Cymru, gyda'r nod o ddangos ei bod hi'n bosibl rhoi diwedd ar ddigartrefedd, gan ei wneud yn brin, yn fyrhoedlog a heb ei hailadrodd. Dros y bum mlynedd nesaf, bydd Homewards yn gweithio gyda chwe lleoliad blaenllaw, gan gynnwys Casnewydd, a rhoi'r lle, offer ac arbenigedd maen nhw ei angen i roi mewn lle atebion arloesol, cydweithredol, a chynaliadwy a allai rhoi Casnewydd ar y llwybr o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Fel rhan o waith Homewards gyda Chasnewydd, maen nhw wedi ffurfio clymblaid o fusnesau a sefydliadau ymrwymedig sydd wedi dod at ei gilydd i greu cynllun gweithredu lleol sy'n amlinellu sut fydd Casnewydd yn dechrau ar siwrne i roi diwedd ar ddigartrefedd.

Mae'r cynllun gweithredu lleol yn manylu ar y meysydd allweddol lle bydd Casnewydd yn gosod cynsail newydd ar gyfer ataliad. Mae'r fenter yn canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau a sefydliadau lleol i ateb achosion sylfaenol o ddigartrefedd, a pha grwpiau o bobl maen nhw'n bwriadu eu cefnogi yn gyntaf, gan gynnwys menywod.

Rydyn ni wedi sefydlu gweithgorau sy'n anelu at adeiladu ar weithio cydweithredol ac ymarfer gorau cyfredol yng Nghasnewydd er mwyn gwella sut mae'r system yn ymateb mewn meysydd allweddol gan gynnwys ataliad, teuluoedd, menywod a chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI). Yn y grŵp menywod, rydyn ni ar hyn o bryd yn canolbwyntio ar fenywod sy'n profi anfanteision lluosog a thrais domestig, trais rhywiol a chamfanteisio rhywiol a all arwain at ddigartrefedd, ac rydyn ni'n gweithio ar y cyd er mwyn deall eu hanghenion yn well a fydd yn llywio datblygiad gwasanaethau yn y dyfodol. Mae menywod sy'n profi digartrefedd yn wynebu risg uwch o drais corfforol a rhywiol. Mae hyn yn gwneud darparu llety diogel, penodol i rywedd yn flaenoriaeth er mwyn diogelu menywod rhag niwed pellach. Mae rhaid i'r llety ateb anghenion menywod anabl, menywod hŷn, a menywod LHDTC+ sydd ag anghenion/profiadau ychwanegol o fenywod sy'n agored i niwed yn gymdeithasol.

Pam rydyn ni'n gwneud hyn ...

"Dim ond help dw i angen, ond dw i ddim yn meddwl gall neb helpu. Does dim byd yn newid - mae pawb sy'n ddigartref yr un fath, dw i'n credu bydda i'n marw'n ddigartref"

Mae **Asesiad ar y Cyd o Anghenion Strategol Digartrefedd Menywod (JSNA)** yng Nghasnewydd, gyda chymorth Homewards Casnewydd, yn rhan o ymdrech ehangach i ymateb i heriau penodol a wynebir gan fenywod yn y rhanbarth hwn. Mae rhaid edrych ar rôl gyffredinol y JSNAau mewn iechyd cyhoeddus a ffocws arbennig Homewards Casnewydd, ynghyd â chyd-destun economaidd-gymdeithasol unigryw Casnewydd er mwyn deall cefndir a chyd-destun y fenter hon.

Mae JSNA yn edrych ar anghenion presennol a rhai yn y dyfodol poblogaethau lleol i lywio a thywys awdurdodau lleol a gwasanaethau iechyd mewn cynllunio ac chomisiynu gwasanaethau wedi'u hintegreiddio er mwyn gwella iechyd a llesiant eu cymunedau. Mae'r asesiad hwn yn helpu adnabod gwahaniaethau a bylchau yn narpariaeth gwasanaeth, gan dywys ymyriadau wedi'u targedu mewn perthynas â digartrefedd menywod, ac yn canolbwyntio ar fenywod sy'n agored i niwed nad ydynt yn gallu gadael sefyllfaoedd peryglus oherwydd bod y dewisiadau tai sydd ar gael iddyn nhw ddim yn ateb lefelau'r galw'n ddigonol neu'r amrywiaeth o anghenion. Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys effaith digartrefedd ar blant a'r cychwyn gorau mewn bywyd. Mae Gweithgor Teuluoedd Homewards Casnewydd wedi'i ganolbwyntio ar y mater hwn a dod o hyd i ffyrdd o sicrhau na fydd unrhyw blentyn yn cael ei niweidio gan ddigartrefedd yng Nghasnewydd yn y dyfodol.

Mae Casnewydd, fel llawer o ardaloedd ôl-ddiwydiannol yn Ne Cymru, yn wynebu heriau economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys lefelau uchel o dlodi, diweithdra, ac amddifadedd cymdeithasol. Mae'r ffactorau hyn yn cyfrannu at amrywiol broblemau iechyd a llesiant, gyda menywod yn cael eu heffeithio'n anghymesur. Yn ychwanegol, mae'r ardal wedi gweld pryderon cynyddol yn gysylltiedig ag ansicrwydd tai a digartrefedd, yn arbennig ymysg grwpiau sy'n agored i niwed.

Mae Gwent bellach yn rhanbarth Marmot. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddealltwriaeth ac addasiadau systemig i'r ffordd y darperir gofal a gwasanaethau er mwyn dwyn i gyfrif anghenion cymdeithasol unigolyn ac i leihau rhwystrau i fynediad at ofal a gwasanaethau o lefel uchel mae grwpiau sy'n agor i niwed yn eu hwynebu'n aml. Mae'n adnabod yr angen i wella cydweithredu rhwng y GIG, llywodraeth leol a sectorau eraill i wella amodau cymdeithasol i'r boblogaeth leol a sicrhau safon byw iach i bawb. Mae'n cydnabod dylai ymdrechion gael eu gwneud gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn sicrhau mynediad teg at eu gwasanaethau.

Yr wyth amcan polisi Marmot:

- **Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn**
- **Galluogi pob plentyn, person ifanc ac oedolyn i wneud y gorau o'u galluoedd a chael rheolaeth dros eu bywydau**
- **Creu cyflogaeth deg a gwaith da i bawb**
- **Sicrhau safon byw iach i bawb**
- **Creu a datblygu mannau a chymunedau iach a chynaliadwy**
- **Cryfhau rôl ac effaith atal salwch**
- **Mynd i'r afdael â hiliaeth, gwahaniaethu a'u canlyniadau.**
- **Canlyn cynaliadwyedd amgylchol a chydraddoldeb iechyd gyda'n gilydd**

Diben

Mae cynnal JSNA Menywod yng Nghasnewydd yn bwysig yn strategol oherwydd heriau demograffig ac economaidd-gymdeithasol penodol y ddinas. Trwy ganolbwyntio ar anghenion menywod, gall yr asesiad helpu awdurdodau lleol a sefydliadau partner ddatblygu strategaethau wedi'u targedu i wella ansawdd bywyd i fenywod, lleihau anghydraddoldebau, ac ateb materion fel cam-drin domestig a thrais rhywiol, mynediad at ofal iechyd ac ansicrwydd tai.

Mae menywod sy'n profi digartrefedd yn wynebu heriau unigryw a phersonol iawn sydd angen dull penodol. Mae cam-drin domestig yn brif achos, yn gorfodi llawer o fenywod i adael eu cartrefi i chwilio am ddiogelwch, yn aml heb unlle i droi [2].

Unwaith maen nhw'n ddigartref, maen nhw mewn perygl fwy o drais, camfanteisio, a thrawma. Mae llawer yn cario'r baich o drafferthion iechyd meddwl, cam-drin sylweddau, a thrawma yn y gorffennol, gan ei gwneud yn anoddach dianc y cylch o ansefydlogrwydd [3].

I fenywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, y rhai ag anableddau, neu unigolion LHDTC+, mae'r heriau yn fwy byth, gan iddyn nhw wynebu gwahaniaethu ychwanegol a diffyg cymorth wedi'i dargedu. Mae llawer o fenywod hefyd yn famau, gan wneud chwilio am dai diogel, sefydlog yn fwy byth o achos brys [4].

Cwmpas

- **Iechyd a Llesiant** - Asesu mynediad at, ac ansawdd, gwasanaethau iechyd ar gyfer menywod, gan gynnwys iechyd mamol a diogelu, iechyd atgenhedlu, gwasanaethau iechyd meddwl, cymorth i rieni, a chymorth ar gyfer cyflyrau sy'n effeithio ar fenywod yn anghymesur.
- **Tai a Digartrefedd** - Adnabod y raddfa a gyrwyr digartrefedd ymysg menywod, gan gynnwys trais domestig, a datblygu ymyriadau er mwyn darparu dewisiadau tai diogel.
- **Cynhwysiant Cyflogaeth ac Economaidd** - Dadansoddi rhwystrau i gyflogaeth i fenywod, megis cyfrifoldebau gofal plant, bylchau cyflog, a gwahaniaethu, a chynnig strategaethau i wella cyfleoedd economaidd.
- **Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, Trais Rhywiol** - Adolygu'r mynychder o gam-drin domestig ac effeithiolrwydd y gwasanaethau cymorth presennol, gyda'r bwriad o ehangu diogelwch a chymorth i fenywod mewn perygl.

Effaith

Bydd y canfyddiadau o'r JSNA Menywod yng Nghasnewydd yn llywio datblygiad strategaethau lleol a chynlluniau gweithredu i ateb anghenion penodol menywod, yn arbennig mewn perthynas â iechyd, diogelwch, a thai.

Mae cynnwys Homewards Casnewydd yn amlygu pwysigrwydd cydweithredu aml-sectoraidd, yn dod ag awdurdodau lleol, darparwyr gofal iechyd, elusennau, a chymunedau cymunedol at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth fel digartrefedd mewn ffordd gynhwysfawr.

Trwy ganolbwyntio ar anghenion menywod, mae'r JSNA hefyd yn chwarae rôl hanfodol mewn eiriol am pan fydd angen bolisïau sensitif i rywedd a sicrhau bod lleisiau menywod yn cael eu clywed yn y prosesau penderfynu lleol.

Yn gryno, mae'r JSNA Menywod yng Nghasnewydd, gyda chymorth Homewards Casnewydd, yn cynrychioli ymdrech sylweddol i ateb y materion o rywedd ac anghyfiawnderau cysylltiedig mewn iechyd, a digartrefedd mewn cymuned agored i niwed. Mae'n erfyn allweddol mewn cefnogi cynllunio gweithredu mewn siapio polisïau lleol effeithiol ac ymyriadau i lywio sut rydyn ni'n gwella bywydau menywod yng Nghasnewydd.

Pennod Dau: **Cyd-destun Cenedlaethol**

Mae'r ddogfen hon yn archwilio'r **cyd-destun cenedlaethol** sy'n effeithio ar fenywod sy'n profi digartrefedd, gan ganolbwyntio ar effaith gwahanol ddeddfwriaeth Cymru ar dai a cham-drin domestig, yn arbennig Deddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015; a Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu ar lefel uchel, 2021–2026; a'u rôl yn mynd i'r afael â digartrefedd a chefnogi menywod sy'n agored i niwed. Mae'n amlygu'r fframweithiau cyfreithiol, yr heriau, a'r angen am well cydweithredu a dulliau sensitif i rywedd er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol.

2014

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

2015

- Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV (Cymru) 2015
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2016

- Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

2021

- Deddf Cam-drin Domestig (2021)
- Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu ar lefel uchel (2021–2026)

2022

- Dyletswydd Trais Difrifol (2022)

Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)

Deddf Tai (Cymru) 2014

Cyflwynwyd **Deddf Tai (Cymru) 2014** gyda'r bwriad o ateb gwahanol broblemau cysylltiedig â thai yng Nghymru. Anelodd at wella ansawdd, hygyrchedd, a rheolaeth tai, yn ogystal â mynd i'r afael â digartrefedd. Cyflwynodd y Ddeddf llawer o ddiwygiadau, gan gynnwys:

Agweddau Allweddol:

Dull Ataliol: Yn anelu at leihau digartrefedd trwy ehangu ymdrechion ataliol a chynnig gwell cymorth a chyngor.

Cyd-weithredu Amlasiantaethol: Yn pwysleisio cydweithredu ar draws gwasanaethau er mwyn cefnogi unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys menywod.

Profiadau Amrywiol Menywod: Yn cydnabod sut mae ffactorau fel hil, oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd, statws mewnfudo, a chyfeiriadedd rhywiol yn effeithio ar ddigartrefedd menywod.

Cam-drin Domestig: Yn adnabod cam-drin domestig fel achos sylweddol o ddigartrefedd ymysg menywod. Mae Adran 70 yn gwneud trais domestig yn flaenoriaeth ar gyfer cymorth digartrefedd, ac mae Adran 80 yn atal awdurdodau lleol rhag cyfeirio menywod sy'n dianc rhag camdriniaeth i awdurdod arall pan fyddant mewn perygl.

Heriau Troseddwr: Yn amlygu ansefydlogrwydd o ran tai ar gyfer menywod â hanes o droseddu, yn arbennig oherwydd diffyg carchardai i fenywod yng Nghymru.

Menywod Lleiafrifol: Yn adnabod yr heriau penodol mae menywod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol, menywod ag anableddau, a menywod LHDTC+ yn eu hwynebu, sy'n ei gwneud yn angenrheidiol cael cymorth wedi'i deilwra.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae **Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014** yn darparu fframwaith ar gyfer cefnogi unigolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny sydd mewn perygl o ddigartrefedd neu gam-drin domestig.

Agweddau Allweddol:

Ataliad ac Ymyriad Cynnar: Yn pwysleisio adnabod unigolion mewn perygl yn gynnar a darparu cymorth wedi'i deilwra.

Dull sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn: Yn sicrhau bod cynlluniau cymorth yn adlewyrchu anghenion a dewisiadau unigryw unigolion.

Cydweithredu: Yn annog partneriaethau rhwng tai, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a sefydliadau gwirfoddol i gynnal gofal cynhwysfawr.

Hawliau ac Eiriolaeth: Yn sicrhau bod gan unigolion, yn arbennig goroeswyr cam-drin domestig, fynediad at wasanaethau eiriolaeth a chymorth.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV (Cymru) 2015

Mae **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV (Cymru) 2015** yn anelu at wella ymateb y sector gyhoeddus i drais yn seiliedig ar rywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Agweddau Allweddol:

Dyletswydd y Sector Cyhoeddus: Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd i baratoi strategaethau ar gyfer ataliad, diogelwch, a chymorth.

Canllaw a Hyfforddiant: Yn darparu canllaw statudol ar gyfer ymateb i drais yn seiliedig ar rywedd, gan gynnwys hyfforddi staff a rhannu gwybodaeth.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn hyrwyddo cynaliadwyedd hir dymor trwy ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried yr effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu penderfyniadau. Mae'n annog dull cyfannol, blaengar er mwyn sicrhau llesiant cenedlaethau'r presennol a rhai'r dyfodol.

Agweddau Allweddol:

Dull cyfannol: Yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ystyried llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol wrth wneud penderfyniadau.

Effaith ar Ddigartrefedd: Yn symud y ffocws o reoli argyfyngau i ataliad achosion sylfaenol, gan anelu at ymateb i ddigartrefedd yn gynaliadwy.

Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

Cyflwynwyd y **Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru)** yn **2016** ac fe'i diwygiwyd yn 2021 gan **Ddeddf Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru) 2021.** Diwygiodd gyfraith tai yng Nghymru er mwyn mwyhau hawliau tenantiaid a gwella safonau eiddo.

Agweddau Allweddol:

Amddiffyniadau i Denantiaid: Yn cynnwys hawliau o gwmpas cyd-gontractau, cyfnodau o rybudd, dadfeddiannau, a safonau ar gyfer ffitrwydd i bobl fyw yna.

Effaith ar Wasanaethau VAWDASV: Mae prosesau contract cymhleth a beichiau gweinyddol wedi creu heriau i'r sector trais yn erbyn menywod, gan gyfyngu ar y nifer o lefydd lloches ar gael i fenywod sy'n dianc rhag camdriniaeth.

Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu ar lefel uchel (2021–2026)

Nod **Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu lefel uchel (2021–2026)** yw atal digartrefedd, gan ganolbwyntio'n benodol ar anghenion menywod.

Agweddau Allweddol:

Cymorth sy'n ystyriol o drawma: Yn blaenoriaethu gwasanaethau diogel, cefnogol ar gyfer menywod sy'n dianc rhag cam-drin domestig.

Cydweithredu: Yn pwysleisio cydweithredu rhwng gwasanaethau digartrefedd a thrais domestig er mwyn sicrhau bod menywod yn derbyn y gofal sydd ei angen.

Deddf Cam-drin Domestig (2021)

Mae'r **Ddeddf Cam-drin Domestig 2021** yn cryfhau amddiffyniadau i ddioddefwyr cam-drin domestig ac yn dwyn cyflawnwyr i gyfrif. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys cam-drin economaidd, yn troseddoli bygythiadau i rannu delweddau o natur personol, ac yn ehangu amddiffyniadau i oroeswyr mewn cyd-destunau cyfreithiol a thai. Fodd bynnag, mae rhai darpariaethau dim ond yn berthnasol i Loegr.

Agweddau Allweddol:

Diffiniad Ehangach: Mae cam-drin domestig bellach yn cynnwys ymddygiadau emosiynol, economaidd, corfforol a rheoli. Mae plant sy'n cael eu hamlygu i gam-drin hefyd yn cael eu cydnabod fel dioddefwyr.

Gorchmynion Amddiffyn: Mae Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPOs) newydd yn cyfyngu camdrinwyr ac yn darparu diogelwch ar unwaith.

Dyletswydd Llety Diogel: Mae rhaid i awdurdodau lleol darparu tai diogel i ddioddefwyr. (Lloegr yn unig)

Amddiffyniadau Llys: Mae camdrinwyr yn cael eu hatal rhag croesholi dioddefwyr mewn llys teulu,

ac mae dioddefwyr yn derbyn mesurau arbennig fel tystiolaeth fideo.

Comisiynydd Cam-drin Domestig: Rôl annibynnol i fonitro a gwella'r ymateb cenedlaethol i gam-drin domestig.

Cymorth i Ddioddefwyr Mudol: Mae cymorth dros dro yn cael ei ddarparu i oroeswyr mudol gyda mynediad cyfyngedig i arian cyhoeddus.

Dyletswydd Trais Difrifol (2022)

Mae'r **Ddyletswydd Trais Difrifol (2022)** yn fframwaith deddfwriaethol yng Nghymru a Lloegr gyda'r nod o ateb y cynnydd mewn trais difrifol.

Cydweithredu Aml-asiantaeth: Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol, yr heddlu, gwasanaethau iechyd, a darparwyr addysg i weithio gyda'i gilydd i ddeall a mynd i'r afael â thrais difrifol.

Ataliad ac Ymyriad Cynnar: Yn pwysleisio strategaethau rhagweithiol i atal trais, gan ganolbwyntio ar ymyriadau cynnar ar gyfer unigolion sydd mewn perygl.

Strategaethau yn Seiliedig ar Dystiolaeth: Yn mandadu'r defnydd o ddata ac ymchwil i lywio gweithredoedd a theilwra ymatebion i anghenion lleol.

Hyblygrwydd i Bartneriaethau Lleol: Yn caniatáu i sefydliadau addasu eu dulliau yn seiliedig ar heriau cymunedol penodol.

Ymgysylltu â'r Gymuned: Yn annog cyfrannu gan aelodau'r gymuned er mwyn deall eu profiadau a phryderon yn well.

Atebolrwydd: Mae rhaid i asiantaethau adrodd ar eu hymdrechion i fynd i'r afael â thrais difrifol, gan sicrhau tryloywder ac effeithiolrwydd.

Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)

Mae **Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF)** yn amod sy'n atal pobl rhag cael budd-daliadau a ariennir gan y wladwriaeth, credydau treth, a chymorth tai ar gyfer unigolion â statysau mudo penodol.

Agwedd Allweddol:

Cymorth Digartrefedd: Ni all y rhai sy'n ddarostyngedig i amodau NRPF gael mynediad at dai awdurdod lleol, ond gall y Gwasanaethau Cymdeithasol asesu a chefnogi unigolion sy'n dianc rhag cam-drin domestig o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Crynodeb

Mae **Deddf Tai (Cymru) 2014** yn diwygio deddfwriaeth ddigartrefedd trwy ehangu cymorth, cydnabod yr heriau unigryw mae menywod yn eu hwynebu, yn arbennig y rhai sy'n dianc rhag cam-drin domestig neu gyda hanes o droseddu. Mae'n pwysleisio'r angen am gydweithrediad aml-asiantaethol i wella ataliad a chymorth. Mae cyfreithiau cyflenwol fel **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)(Cymru) 2015** a **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** hefyd yn hybu atebion hirdymor. Mae hyn yn cynnwys fframwaith deddfwriaethol y **Dyletswydd Trais Difrifol (2022)** a fwriedir at hybu dull wedi'i gydlynu ac ataliol i leihau trais difrifol a gwella diogelwch cymunedol.

Yng Nghasnewydd, bydd effaith y polisïau cenedlaethol hyn yn arbennig o arwyddocaol. Rydyn ni'n gyfoethog o ran deddfwriaeth sy'n annog cydweithredu rhwng partneriaid, atal ac mae iddi ffocws cryf ar ddiogelu menywod. Mae Homewards wedi bod yn llwyddiannus yn trefnu lle ar gyfer cydweithredu er mwyn gwneud newid ystyrlon. Fodd bynnag, mae problemau gyda **deall galw, diffyg data sy'n benodol i rywedd,** ac **ariannu annigonol** yn rhwystro gweithrediad effeithiol. Mae hyn yn amlygu'r angen brys am atal a strategaethau rheoli argyfyngau wedi'u teilwra i amgylchiadau unigryw mae menywod yn eu hwynebu yn ein cymuned.

Pennod Tri:
Cyd-destun Lleol



Casnewydd

Mae Casnewydd yn ddinas yn Ne Cymru, wedi'i lleoli ar Afon Wysg, tua 12 milltir i'r gogledd-ddwyrain o Gaerdydd. Mae iddi hanes cyfoethog a diwydiant sy'n ffynnu, yn adnabyddus am ei harwyddocâd diwylliannol. Yn hanesyddol, yn ddinas a allforai glo, mae economi Casnewydd wedi arallgyfeirio i sectorau fel uwch-dechnoleg, electroneg, a gwasanaethau ariannol.

Mae'r ddinas wedi adfywio'n sylweddol, gydag ardaloedd siopa newydd a chysylltiadau trafnidiaeth gwell, gan osod ei hun fel man fforddiadwy amgen i Gaerdydd a Bryste i fyw ac ar gyfer busnes,ae'r datblygiadau modern hyn wedi gwthio prisiau tai i fyny. Mae Casnewydd, fel dinasoedd ôl-ddiwydiannol eraill yn y DU, yn wynebau problemau o amddifadedd mewn rhai mannau er gwaethaf ymdrechion diweddar at adfywiad a thwf economaidd. Tra bod rhannau o'r ddinas wedi gweld datblygu sylweddol, mae cymdogaethau eraill yn parhau i frwydro â thlodi, diweithdra a heriau cymdeithasol. Mae'r anghydbwysedd economaidd, yn arbennig ar ôl y cwymp mewn cloddio am lo a chynhyrchu dur, yn un oyrwyr amddifadedd yn y ddinas.

Mae gan Gasnewydd 95 o LSOAs (Ardaloedd Allbwn Uwch Haen Isaf) sy'n ardaloedd daearyddol a ddefnyddir yn y DU i gasglu ac adrodd am ystadegau lleol, fel poblogaeth neu ddata iechyd, er mwyn helpu deall cymunedau lleol.

Un o LSOAs Casnewydd, 'Pilgwenlli 4', yw'r 10fed ardal mwyaf difreintiedig trwy Gymru gyfan. Yn ychwanegol, mae bron i chwarter o LSOAs yng Nghasnewydd (23 o LSOAs) yn y 10% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae amddifadedd tai yng Ngwent wedi'i glystyru o amgylch canol dinas Casnewydd. O'r 10% cyntaf o LSOAs yng Nghymru sydd â'r gyfradd uchaf o amddifadedd tai, mae 12 o'r LSOAs hyn yng Nghasnewydd.

Mae canlyniadau iechyd yn ardaloedd difreintiedig Casnewydd yn aml yn waeth nac yn rhannau mwy cyfoethog y ddinas. Mae anghydraddoldebau arwyddocaol mewn disgwyliad oes, gyda phobl yn yr ardaloedd tlotaf yn fwy tebygol o ddioddef o salwch cronig a phroblemau iechyd meddwl yn gynharach mewn bywyd.

Mae tai yn rhai o ardaloedd difreintiedig Casnewydd yn broble, gyda diffyg o ddewisiadau fforddiadwy yn cyfrannu at broblemau cymdeithasol. Mae digartrefedd hefyd wedi bod yn bryder parhaus, yn enwedig mewn ardaloedd trefol. Mae prosiectau i wella tai cymdeithasol ac adeiladu tai fforddiadwy newydd yn parhau, er bod prinder o hyd o dai o ansawdd yn llawer o gymdogaethau difreintiedig

Mae Casnewydd wedi cymryd camau sylweddol mewn ailfywio ei heconomi a'i seilwaith, fodd bynnag mae pocedi o amddifadedd yn parhau'n broblem ddifrifol, yn arbennig mewn ardaloedd a oedd yn dibynnu'n drwm ar ddiwydiannau traddodiadol. Mae'r ddinas yn newid, ond nid yw manteision yr adfywiad wedi eu teimlo'n gyfartal ar draws pob cymuned. Mae anghydraddoldebau economaidd, tai, addysg, a materion iechyd yn parhau i effeithio ar y rhannau mwyaf difreintiedig o Gasnewydd, gan ofyn am buddsoddi parhaus a chymorth wedi'i dargedu i wella safonau byw a chyfleoedd i bawb sy'n byw yno. Mae hyn yn arbennig o allweddol, ein bod yn canolbwyntio ac yn cydnabod y dull rhywedd i ddigartrefedd a'r rhai sydd mewn perygl o ddigartrefedd.

Proffil o Gasnewydd

Gwybodaeth gyffredinol

(Cyfrifiad 2021[6] neu Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019[7])

Poblogaeth
159,587

o Boblogaeth Cymru
5.1%



Dwysedd Poblogaeth (poblogaeth y km²)
838



Arwynebedd (km²)
217

% o bobl sy'n haniaethu fel nid yn Wyn
14.5%



% o'r boblogaeth sy'n Fenywaidd
50.9%

o bobl sy'n 65 oed a throsodd
17.0%



% o'r boblogaeth dros 16 sy'n LHDTC+
2.88%

o bobl sy'n 16 neu hŷn heb unrhyw gymwysterau
21.7%

% o bobl dros 16 sy'n segur yn economaidd
2.88%

MALIC 2019 – % gyffredinol o LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig
24.2%

MALIC 2019 – Parth Diogelwch Cymunedol % o LSOAs yn y 10% mwyaf difreintiedig
35.8%

Mae'r cysylltiad rhwng disgwyliad bywyd iach a digartrefedd menywod yn amlochrog. Mae menywod sy'n profi digartrefedd yn aml yn wynebu heriau iechyd sylweddol, gan gynnwys cyfraddau uwch o salwch cronig, problemau iechyd meddwl, a chamddefnyddio sylweddau. Gall y ffactorau hyn effeithio ar eu disgwyliad bywyd a'u blynyddoedd bywydau iach yn negyddol. Yn aml, mae gan fenywod digartref fynediad cyfyngedig i wasanaethau gofal iechyd, sy'n gwaethygu problemau iechyd cyfredol ac yn arwain at disgwyliad bywyd cyffredinol sy'n is. Mae gan fenywod digartref yng Nghasnewydd fynediad at Dîm Cynhwysiant Iechyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae hwn yn dim bychan, un pwrpas a arweinir gan nyrsys sydd â dau nyrs iechyd meddwl, un nyrs gyffredinol a thri gweithiwr cymorth gofal iechyd ar gyfer Gwent gyfan. Mae gan nifer o fenywod digartref hanesion o drawma a thrais, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol, a all arwain at broblemau corfforol ac iechyd meddwl. Gall y trawma hwn leihau disgwyliad byw iach ac effeithio ar blynyddoedd bywyd iach. Mae mynediad at fwyd maethlon yn aml yn gyfyngedig i unigolion sy'n ddigartref. Gall maeth gwael arwain at ystod o broblemau iechyd, gan effeithio ar ddisgwyliad bywyd ymhellach. Gall y straen o ddigartrefedd gyfrannu at gyflyrau iechyd meddwl, sydd, yn eu tro, yn gallu effeithio ar iechyd corfforol a hirhoedledd.

Mae ateb y problemau rhyng-gysylltiedig hyn angen polisïau cynhwysfawr sy'n gwella sefydlogrwydd tai, mynediad at ofal iechyd, a gwasanaethau cymorth ar gyfer menywod sy'n wynebu digartrefedd. Mae Asesiad Strategol ar y Cyd Gwent - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (gig.cymru) yn rhoi trosolwg cynhwysfawr o iechyd a llesiant pobl Gwent ac yn dangos y canlynol fel llun yng Nghasnewydd.

Graff 1: Disgwyliad Oes Benywaidd



Yn fras, roedd disgwyliad oes benywaidd ar enedigaeth yng Nghasnewydd yn wastad o 2011/13 i 2017/19 ond mae wedi bod yn gostwng yn araf ers hynny.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Graff 2: Disgwyliad Oes Benywaidd Iach



Cyrhaeddodd disgwyliad bywyd iach benywaidd yng Nghasnewydd uchafbwynt yn ystod 2015-2017 ar 62 mlwydd oed, ond mae wedi bod yn gostwng ers hynny.

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

Graff 3: 90% Benthyciad i Werthuso Morgais Cyfradd Sefydlog 2 Flynedd



Ffynhonnell: Banc Lloegr

Mae Graff 3 yn dangos effaith cyfraddau morgais uwch ar y rhai mewn tai ar hyn o bryd a'r rhai sy'n ceisio cael troed ar yr ysgol eiddo. Mae'r cynnydd hwn mewn cyfraddau llog hefyd wedi cael effaith ar fforddiadwyedd llety wedi'i rentu, gyda rhenti'n uwch neu'r farchnad prynu-i-osod yn crebachu. I lawer o aelwydydd incwm isel, nid yw prynu tŷ yn fforddiadwy ar hyn o bryd - mae rhaid i ymgeiswyr sengl wario hyd at 7.6 gwaith eu cyflog [5].

Mae'r niferoedd o bobl sydd wedi ymweld â Chyngor Dinas Casnewydd am gyngor tai wedi cynyddu dros y tair blynedd ddiwethaf, yn dangos cynnydd mewn angen a rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau.

Graff 4: Dulliau ar gyfer cyngor ac arweiniad ar dai



Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd

Mae Graff 4 yn dangos y cynnydd o geisiadau cymorth ar gyfer tai dros y tair blynedd ddiwethaf, trwy'r gwasanaeth Gateway sy'n cael ei redeg gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Graff 5: Cyfanswm a chyflwyniadau digartrefedd rhagolwg tueddiad

Cyfanswm y cyflwyniadau digartref Ebrill 23 i Fawrth 24 = 2607
Cyflwyniadau digartrefedd – Rhagolwg Tueddiad Ebrill 24 i Fedi 24 = 2718



Ffynhonnell: Cyngor Dinas Casnewydd

Mae Graff 5 yn dangos y data dros y 18 mis diwethaf ar gyfer aelwydydd sydd wedi gofyn Cyngor Dinas Casnewydd am gyngor mewn perthynas â digartrefedd dros y flwyddyn ddiwethaf. Nid yw'r data ar hyn o bryd wedi'i rannu yn ôl rhywedd, ond mae'n dangos pe bai'r tuedd a ragolygir yn digwydd, bydd cyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu 4.3% o 2023/24 i 2024/25.

Graff 6: Pris canolrif tai ac enillion blynyddol gros canolrifol yn seiliedig ar breswylfa yng Ngwent 2018-2022



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

Yn 2022, roedd y gymhareb o bris canolrifol tai i enillion gros canolrifol y flwyddyn ar gyfer Casnewydd oedd yr awdurdod lleol ail uchaf yng Ngwent sef 6.4. O 2020 i 2021, daeth tai fod yn llawer llai fforddiadwy oherwydd cynnydd mewn prisiau tai tra bod enillion wedi aros yr un fath. O 2021 i 2022, roedd prisiau tai yn fflat tra bod enillion eraill wedi cynyddu, gan wneud tai ychydig yn fwy fforddiadwy na'r flwyddyn flaenorol, ond o hyd yn llai fforddiadwy na chyn 2021.

Graff 7: Pris canolrif tai ac enillion blynyddol gros canolrifol yn seiliedig ar breswylfa yng Ngwent 2012- 2022



Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol

O 2021 i 2022, disgynnodd prisiau tai yng Nghasnewydd ychydig tra bu i enillion gynyddu gan wneud tai ychydig yn fwy fforddiadwy na'r flwyddyn flaenorol, ond o hyd yn llai fforddiadwy na chyn 2021. Mae hyn yn dangos her pobl yn ceisio prynu cartref.

Casnewydd - Maint yr her

Mae digartrefedd yng Nghasnewydd, fel mewn llawer o ardaloedd, yn cael ei achosi gan gymysgfa gymhleth o ffactorau personol, cymdeithasol, a strwythurol. Mae deall achosion sylfaenol digartrefedd menywod yng Nghasnewydd yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Yn 2022, amlygodd Strategaeth Cymorth Tai Awdurdod Lleol Casnewydd y canlynol [6]



- Mae cyflwyniadau digartrefedd yng Nghasnewydd wedi parhau'n gyson o gwmpas 1,900 y flwyddyn am y tair blynedd ddiwethaf.
- Mae'r nifer o bobl sengl sy'n cyflwyno eu hunain yn ddigartref wedi cynyddu'n arbennig o 62% i 70%, yn cefnogi'r angen i awdurdodau lleol ddarparu cymorth i aelwydydd ac unigolion na fuasent yn flaenorol yn cael eu hystyried yn angen blaenoriaethol.
- Mae'r cyfraddau atal digartrefedd wedi lleihau o 49% cyn y pandemig i 42%, ond mae'r nifer o achosion ataliad hefyd wedi disgyn 50% yn 2020/21, yn adlewyrchu y ddeddfwriaeth Covid dros dro yn atal dadfeddiannu, cynyddu cyfnodau rhybudd a lleihau cyfleoedd i gyfryngu a chadw llety gyda'r teulu neu ffrindiau.
- Er gwaethaf y nifer o achosion tebyg, mae cyfraddau cymorth digartrefedd a chanlyniadau cadarnhaol wedi lleihau o tua 26% i 20% a 74% i 63% oherwydd diffyg llety symud ymlaen fforddiadwy yn ystod y pandemig.
- Mae'r rhestr aros am dai fforddiadwy dros 8,000 ym mis Tachwedd 2021 gyda chyfartaledd o 300 geisiadau yn cael eu derbyn y mis.
- Mae'r cyfartaledd rhif o gynigion a dderbyniwyd fesul eiddo a hysbysebwyd ar gyfer 2021/22 yn fwy na 230, sydd wedi cynyddu o 166 yn 2019/20.
- Lleihaodd y nifer o denantiaethau tai cymdeithasol a ddyfarnwyd trwy'r Gofrestr Tai Cyffredin yn ystod 2020/21 o tua 1,000 i 751, gyda chyfartaledd o 47% o ddyraniadau i aelwydydd digartref.
- Ers mis Mawrth 2020, mae'r nifer o aelwydydd a roddwyd llety dros dro iddynt wedi cynyddu o 238 i 385 ym mis Hydref 2021. Mae tua 32% o'r rhai a roddwyd llety iddynt yn derbyn llety oherwydd canllawiau Llywodraeth Cymru yn unig, nid o dan ddeddfwriaeth Deddf Tai (Cymru) 2014.
- Mae lleoliadau dros dro yn 96 y mis ar gyfartaledd; mae rhifau symud ymlaen o lety dros dro yn parhau yn 16 o aelwydydd y mis ar gyfartaledd.
- **Mae menywod sy'n profi digartrefedd yn wynebu risg uwch o drais corfforol a rhywiol. Mae hyn yn gwneud darparu llety diogel, penodol i rywedd yn flaenoriaeth er mwyn diogelu menywod rhag niwed pellach..**

"Does neb yn malio amdanon ni... Yr unig rai sy'n malio amdanon ni ydach chi. Meddyliwch am bobl yn meddwl eich bod chi'n daclau budr... achos dyna be' mae pobl yn meddwl ohonon ni"

Graff 8: Menywod yn cysgu allan yng Nghasnewydd



Nid yw'r rhif hwn yn cymryd i ystyriaeth y menywod hynny nad ydynt efallai yn cydnabod eu hunain yn ddigartref gan eu bod yn syrffio soffas neu'n cael eu camfanteisio'n rhywiol yn gyfnewid am rywle i gysgu neu y rhai hynny sydd mewn perygl o ddigartrefedd ac yn aros mewn sefyllfaoedd o risg o niwed uchel er mwyn cael to uwch eu pennau. Nid oes ond ychydig o ddata wedi'i gasglu yn y maes hwn, felly mae'n anodd mesur yr effaith.

Mae angen gwaith pellach er mwyn deall effaith digartrefedd a'r risg o ddigartrefedd ar anghenion penodol menywod digartref. Mae cynnydd graddol sy'n achosi pryder yn y nifer o fenywod dros chwe deg pump sy'n profi cam-drin domestig a chysgu allan. Nid yw ystadegau presennol cysgu allan yn cipio wir fesur y broblem; bydd yr adroddiad hwn yn amlygu'r gwendidau a wynebir gan fenywod sy'n aros mewn sefyllfaoedd ansicr oherwydd diffyg dewisiadau tai amgen. Mae deall y rhifau hyn yn hanfodol ar gyfer ateb anghenion y rhai sydd mewn perygl.

Peryglon a Wynebir gan Fenywod mewn Llety Dros dro

Mae llety dros dro yn cyfeirio at dai tymor byr a ddarperir i unigolion neu deuluoedd sy'n digartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Yn aml, mae'r math hwn o lety yn cael ei drefnu gan awdurdodau lleol. Gall llety dros drogynnwys hosteli, sefydliadau gwely a brecwast a thai wedi'u rhannu, lle gall y rhai sy'n wynebu digartrefedd geisio am gymorth. Bwriedir hyd llety dros dro i fod yn fyr dymor, fodd bynnag oherwydd diffyg argaeledd eiddo rhent a thai cymdeithasol, mae pobl yn canfod eu hunain mewn llety dros dro yn hir dymor. Mae data diweddaraf Cyngor Dinas Casnewydd a gyhoeddwyd (mis Ionawr – mis Mawrth 2024) yn datgan bod 534 o bobl mewn llety dros dro; o'r rhain, roedd 24 mewn lochesau a 342 o bobl mewn gwely a brecwast. Nid yw'r data wedi ei dorri i lawr yn ôl rhywedd ar lefel genedlaethol [7]

Mae menywod mewn llety dros dro yn wynebu nifer o beryglon a all effeithio ar eu diogelwch, eu hiechyd, a'u llesiant. Gall menywod fod mewn mwy o berygl o drais neu aflonyddu, oddi wrth breswylwyr eraill ac unigolion allanol. Gall hyn gynnwys cam-drin domestig, ymosodiad rhywiol, neu gamfanteisio.

Effaith ar Iechyd Meddwl

Gall y straen o dai ansefydlog waethygu problemau iechyd meddwl, yn arwain at gorbryder, iselder, neu anhwylder straen ôl-drawmatig, yn arbennig i'r rhai â thrawma blaenorol. Yn aml, mae gan lety dros dro ofodau byw a rennir, a allai arwain at diffyg preifatrwydd a gofod personol, gan ychwanegu at y straen a theimladau o ansicrwydd.

Gwasanaethau Cymorth Annigonol

Nid yw pob llety dros dro yn darparu cymorth digonol, megis gwasanaethau iechyd meddwl, hyfforddiant swydd, neu fynediad at ofal iechyd, gan ei gwneud yn anodd i fenywod newid i dai sefydlog. Gall rhai menywod droi at ddefnyddio sylweddau fel dull o ymdopi i'r heriau maen nhw'n eu hwynebu, a all arwain at broblemau iechyd pellach ac ansefydlogrwydd ac yn aml yn eu harwain i gael eu gofyn i adael y llety. Fel gyda llochesau, mae rhag-amodau trefniadau byw sy'n ei gwneud yn hynod o anodd i lawer o fenywod â phroblemau caethiwed gadw llety dros dro.

Heriau i Fenywod gyda Phlant

Ar gyfer y menywod hynny sydd â phlant, gall llety dros dro gymhlethu rhianta, gydag adnoddau wedi'u cyfyngu a llefydd diogel ar gyfer plant i chwarae neu dysgu neu goginio prydau iachus.

Graff 9: Nifer o aelwydydd mewn Llety dros dro ar ddiwedd y mis, Ebr 23 i Fedi 24*



Ffynhonnell Cyngor Dinas Casnewydd *Nid yw hyn yn cynnwys menywod sy'n rhan o gwpl

Mae Graff 9 yn cynnwys 18 mis o ddata gan Gyngor Dinas Casnewydd, yn dynodi'r nifer o ymgeiswyr benywaidd sy'n rieni sengl ac ymgeiswyr benywaidd sy'n sengl. Mae y nifer o ymgeiswyr gwrywaidd sengl yn uwch mewn llety dros dro. Yn y 18 mis o fis Ebrill 2023 i fis Medi 2024, roedd ar gyfartaledd 182 o fenywod sengl mewn llety dros dro a oedd dim ond yn 17% yn is o dan y rhif cyfartalog o ddynion sengl mewn llety dros dro (219 o ddynion). Ar gyfartaledd, roedd 60% o'r 182 o fenywod sengl hyn mewn llety dros dro yn fenywod sengl gyda phlant.

Yn gyffredinol, mae llety dros dro yn chwarae rôl hanfodol mewn mynd i'r afael â digartrefedd, ond mae'n amlygu'r angen am atebion tai mwy cynaliadwy.

Amgylchedd Economaidd Cymdeithasol

Mae menywod yn fwy tebygol o fod yn dlawd ac maent wedi eu taro'n galetach gan doriadau i nawdd cymdeithasol a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus dros y degawd diwethaf. Mae gan fenywod lefelau is o gynilion a chyfoeth na dynion. Hyd yn oed cyn Covid-19, roedd menywod yn fwy tebygol o fod mewn dyled ac mae hyn wedi gwaethygu oherwydd y pandemig. Mae cyfrifoldebau gofalu menywod yn golygu eu bod yn aml yn llai abl na dynion i gynyddu eu horiau o waith sy'n talu, gan fod costau gofal plant yn cynyddu uwchben lefel chwyddiant am lawer o fynyddoedd cyn yr argyfwng hwn. Mae menywod yn dueddol o fod â'r prif gyfrifoldeb o brynu a pharatoi bwyd ar gyfer eu plant a'u teuluoedd, ac am reoli cyllidebau aelwydydd tlawd. Mae dwywaith gymaint o fenywod â dynion yn y 10% isaf o enillwyr ac mae menywod yn gwneud i fyny 60% o'r rhai sy'n ennill llai na'r Cyflog Byw Gwirioneddol [8].

Mae cam-drin ariannol yn rhan o reolaeth drwy orfodaeth lle mae'r cyflawnwr yn cyfyngu ar y rheolaeth sydd gan y goroeswr dros ei harian. Mae menywod yn fwy agored i gam-drin ariannol lle maen nhw'n dibynnu ar eu partner fod â mwy o gynilion a gallu i ennill cyflog. Gallai cam-drin ariannol olygu nad oes gan y goroeswr fynediad at ei harian ei hun, erioed wedi gallu talu biliau neu fod heb arian i gefnogi ei hun pan fydd yn dianc. Gan fod cam-drin ariannol yn fath o reolaeth drwy orfodaeth - a all, oherwydd ei natur llechwraidd fod yn anodd ei ddiffinio - mae'n debyg fod y canran go iawn o oroeswyr sydd wedi profi cam-drin ariannol yn llawer yn uwch na'r rhai sydd wedi'i nodi'n benodol.

Gall sefydlogrwydd ariannol ar ôl cam-drin fod yn hynod anodd i'w gyrraedd a'i gynnal a bydd yn debygol o effeithio ar oroeswr pan fyddan nhw'n symud ymlaen i lety newydd, er enghraifft, gall fod yn hynod anodd llywio biliau a gallai gronni dyled. Gall hyn gynyddu i droi allan a gallai fod â chyfyngiadau ar rhentu eiddo yn y dyfodol, yn lle cael eu darparu â'r cymorth y maen nhw ei angen.

Bydd goroeswyr cam-drin ariannol a/neu mathau eraill o gam-drin a thrais yn wynebu nifer fawr o rwystrau i sicrhau llety addas a diogel. Efallai na fyddan nhw'n cael eu hystyried yn 'ymgeisydd dymunol' gan landlordiaid oherwydd eu sefyllfa ariannol neu eu cysylltiad â chyflawnwr, mewn marchnad sydd eisoes yn enbyd o gystadleuol. Yn aml hefyd, mae eiddo rhent preifat angen prawf o ennill arian a blaendal ymlaen llaw. Mae llawer o wahanol resymau pam mae'n bosibl nad oes gan oroeswr yr arian am hyn, o achos caledi ariannol, ac o'r herwydd fyddai'n annhebygol o sicrhau eiddo rhentu preifat. Mae hyn yn anfanteisio'r goroeswyr hynny sydd ddim yn sefydlog yn ariannol ac yn creu anghydraddoldeb rhwng goroeswyr yn dibynnu ar eu sefyllfa ariannol.

Prin yw'r menywod sy'n cael eu rhyddhau o'r carchar sydd â'r arian i gael tenantiaethau sy'n eu galluogi i gael perthnasau ystyrlon â'u plant, sydd yn aml y ffactorau amddiffynnol a fydd yn gwella'r menywod rhag ail-droseddu.

Fydd y newyddion diweddar bod Tata Steel UK yn torri swyddi yng ngwaith dur Llanwern yn cael effaith ymhellach ar fenywod sy'n ffurfio 40% o'r gweithlu. Bydd colli 300 o swyddi yn rhoi pwysau sylweddol ar y farchnad swyddi yng Nghasnewydd. Ni ellir gorbwysleisio'r amgylchedd economaidd gymdeithasol fel effaith ar ddigartrefedd ac mae'n batrwm sy'n digwydd dro ar ôl tro trwy gydol y pum thema canlynol.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Mae'n bwysig cydnabod bod bob math o drais yn erbyn menywod – cam-drin domestig, profiadau o drais rhywiol, cam-drin ariannol, camfanteisio rhywiol, caethwasiaeth fodern a thrais yn seiliedig ar urddas, yn gallu cyfrannu at brofiadau menywod o ddigartrefedd, sefyllfaoedd tai bregus a bod mewn perygl o ddigartrefedd. Gall profiadau o drais rhywiol hefyd fod yn ffactor sy'n cyfrannu at ddigartrefedd.

Mae cam-drin domestig, trais rhywiol a chamfanteisio rhywiol yn brif achosion digartrefedd, yn arbennig i fenywod. Mae llawer o unigolion, yn arbennig menywod, yn cael eu gorfodi i adael eu cartrefi er mwyn dianc rhag perthynas lle ceir cam-drin, yn aml heb unlle arall i fynd iddo. Yng Nghasnewydd, fel ym mannau eraill, mae cam-drin domestig yn sbardun arwyddocaol i ddigartrefedd, gyda dioddefwyr yn aml yn dibynnu ar lety brys neu dros dro. Mae Rhoi diwedd ar Ddigartrefedd yng Nghymru: Cynllun gweithredu ar lefel uchel, 2021–2026 yn pwysleisio bod cam-drin domestig yn un o brif achosion digartrefedd ymysg menywod, yn golygu bod angen dull wedi'i dargedu i gefnogi dioddefwyr [9]

"Dw i ddim yn gallu mynd ymlaen lawer mwy, gweithio allan pa fainc yw'r un mwyaf diogel imi gysgu arni neu gyda pha gwsmer dw i'n gallu aros nos gyda tho uwch fy mhen a gweithio allan sy'n llai o berygl o fy ngham-drin i - Mae'n waith caled bob dydd. Dydy diraddio fy hun trwy waith rhyw ddim mor ddrwg â diraddio fy hun trwy cael gwasanaethau yn edrych i lawr arnaf fi, fy marnu ac yn fy nghadw i ar waelod y domen. Mae'r gwasanaethau sy'n hoffi fy atgoffa i o pam dw i yn y sefyllfa yma, dw i'n gwybod yn well na neb pam dw i yma, dim y gwasanaethau sydd ddim mewn gwirionedd yn deall fy mywyd i a beth dw i wedi mynd trwodd"

Mae'r berthynas rhwng digartrefedd a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yw'r mwyaf amlwg. Mae archwiliadau lleol wedi dangos bod 100% o'r menywod mae Cymorth i Fenywod Cyfannol yn eu cefnogi trwy eu llochesau a chymorth fel y bo'r angen a chymorth Cyngor Dinas Casnewydd i ddigartrefedd ar y stryd wedi profi neu yn profi cam-drin domestig a/neu cael eu camfanteisio'n rhywiol.

Ar hyn o bryd nid oes diffiniad statudol o gamfanteisio rhywiol oedolion. Mae Grŵp gweithredol Cymru Gyfan ar gyfer Menywod sy'n cael eu Hecsbloetio'n Rhywiol wedi sefydlu diffiniad "Maecamfanteisio rhywiol yn digwydd pan mae person yn cael ei orfodi neu ei fanipiwleiddio i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol gan drydydd parti, neu allan o reidrwydd er mwyn ariannu anghenion sylfaenol" [10]. Mae'n bwysig cael diffiniad gan gallai llawer o fenywod beidio â chydnabod eu bod yn cael eu camfanteisio'n rhywiol.

Tra gall camfanteisio rhywiol gynnwys masnachu a chaethwasiaeth fodern, mae'n hanfodol cydnabod y sbectrwm ehangach o gamfanteisio, yn arbennig y mathau mwy 'dirgel'. Mae hyn yn cynnwys rhyw er mwyn goroesi, lle mae unigolion yn cymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol er mwyn diwallu anghenion sylfaenol fel bwyd, lloches, neu arian a threfniadau 'rhyw am rent' neu am ddim yn gyfnewid am weithredoedd rhywiol.

I rai goroeswyr, gall hyn deimlo fel yr unig ddewis er mwyn sicrhau llety, ond mae'n eu gadael yn agored i gam-drin pellach a thrais. Mae rhyw am rent yn anghyfreithlon yn y DU o dan Adran 54 Deddf Troseddau Rhywiol (2003) a Deddf Caethwasiaeth Fodern (2015) a gall landlordiaid eu herlyn am ymgeisio i gymryd rhan mewn rhyw am rent. Mae hefyd sefyllfaoedd lle nid yw'r unigolyn sy'n cynnig llety yn landlord cyfreithiol, ond yn hytrach yn ffrind neu'n gydnabod. Mewn achosion fel hyn, gall fod y trefniad fod mor sylfaenol â chynnig soffa neu wely am y noson yn gyfnewid am weithredoedd rhywiol.

Mae'r sefyllfaoedd hyn yn gynhenid gamfanteisiol, gan y gall cyflawnwyr ddefnyddio'r ymddiriedaeth oedd gan eraill ynddynt i fanipiwleiddio, camdrin a rheoli dioddefwyr ymhellach. Heb landlord ffurfiol neu gytundebau contractiol, mae'r llety a ddarperir yn parhau'n arbennig o ansefydlog ac ansicr. Gall rhai dioddefwyr ddim hyd yn oed adnabod eu bod wedi profi camfanteisio. Nid yw Heddlu Gwent yn casglu data ar ryw am rent, felly mae wedi bod yn anodd mesur yr effaith. Mae cyfweliadau gyda'r rhai sy'n gweithio yn y rheng flaen yn datgan ei fod yn broblem gynyddol ond yn anodd ei herio ac mae dioddefwyr yn anfodlon dod ymlaen oherwydd stigma, ofn dial, neu deimlo cywilydd. Gallai llawer o unigolion yn y sefyllfaoedd hyn fod mewn sefyllfaoedd ariannol dybryd, gan gymhlethu canfyddiadau o gamfanteisio yn erbyn cymryd rhan gwirfoddol.

Mae menywod sy'n cael eu camfanteisio ar y strydoedd mewn perygl o drais difrifol bob dydd oherwydd natur eu rolau. Mae llawer o fenywod yn gweld hyn fel perygl y rôl sy'n golygu eu bod yn cael eu hail-trawmateiddio llawer o weithiau. Mae wedi bod yn anodd cael data er mwyn deall yr effaith a bydd unrhyw ffigyrau yn cael eu tanadrodd yn sylweddol am lawer o resymau.

Mae gan Heddlu Gwent bolisi clir o beidio ag erlyn menywod sy'n gwerthu rhyw am lithio, gan ganolbwyntio ar dargedu ecsbloetwyr. Fodd bynnag, fe erys ofn troseddoli neu aflonyddu gan yr heddlu, yn rhwystro llawer rhag ceisio am help. Wedi'i gyfuno â drwgdybiaeth o'r system, gall hyn erydu hyder, gan arwain menywod i gredu na fyddant yn cael cyfiawnder. Yn ogystal, gallai dioddefwyr ofni dial gan gyflawnwyr, yn enwedig os daw yn hysbys pwy ydyn nhw neu maent yn amau gallu'r system i'w diogelu.

Mae camfanteisio plentyn gan riant yn arwain at enethod mor ifanc â deuddeg/tair ar ddeg yn profi camfanteisio rhywiol sy'n cael ei gyflawni gan rieni neu aelodau o'r teulu. Mae hyn yn parhau'r cylch, ac nid oes dewis gan y genethod ifanc. Bydd hyn yn eu gwneud yn agored i niwed ac mae'n debygol iawn byddant o ganlyniad mewn perthnasau camdriniol ac mewn perygl o ddigartrefedd.

Mae genethod yn y gwasanaeth gofal yn arbennig ofod mewn perygl. Mae archwiliadau lleol wedi sefydlu bod 86% o fenywod sydd ar hyn o bryd yn y gwasanaeth camfanteisio rhywiol yng Nghasnewydd wedi bod yn, neu wedi cael cysylltiad â'r system ofal. Mae cael eich camfanteisio'n rhywiol neu mewn perthnasau camdriniol domestig yn brif achosion digartrefedd, sy'n golygu bydd genethod sy'n gadael y system ofal mewn perygl uwch o fod yn ddigartref na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Salwch Meddwl

Mae problemau iechyd meddwl yn achos ac yn ganlyniad o ddigartrefedd. Mae pobl sydd â chyflyrau iechyd meddwl heb eu trin neu wedi'u rheoli'n wael yn aml yn cael trafferthion i gynnal gwaith neu lety sefydlog. Yng Nghasnewydd, fel mewn llawer o ranbarthau eraill, gall y diffyg gwasanaethau iechyd meddwl hygyrch arwain at unigolion yn colli eu cartrefi oherwydd anawsterau ymdopi â bywyd bob dydd, talu'r rhent, neu reoli perthnasau.

Yn ogystal, gall y profiad o ddigartrefedd neu fod mewn perygl o golli cartref effeithio ar iechyd meddwl unigolyn yn sylweddol, hyd yn oed cyn diagnosis blaenorol. Mae bod yn ddigartref neu bod mewn tŷ ansefydlog hefyd yn cynyddu'r risg o ddatblygu cyflyrau iechyd meddwl newydd.

Mae iechyd meddwl yn cyfeirio at ein lles emosiynol, seicolegol, a chymdeithasol. Mae'n effeithio ar sut rydyn ni'n meddwl, teimlo, a gweithredu, ac mae'n chwarae rôl hanfodol yn sut rydyn ni'n ymdrin â straen, yn ymwneud ag eraill, a gwneud dewisiadau. Mae iechyd meddwl da yn ymwneud â chadw cydbwysedd ac ymdopi â heriau bywyd yn effeithiol. Bydd profiadau o ddigartrefedd neu bod mewn perygl o ddigartrefedd yn effeithio'n andwyol ar iechyd meddwl unigolyn, ni waeth a oes ganddyn nhw gyflwr iechyd meddwl wedi'i ddiagnosio. Gall bod yn ddigartref neu gyda llety bregus hefyd waethygu'r perygl o ddatblygu cyflwr iechyd meddwl.

Mae cydnabyddiaeth bod gan y boblogaeth ddigartref hanes o drawma a phrofiadau andwyol o'u plentyndod yn aml, yn ogystal â phrofi trawma parhaus a chysylltiedig stigma a cael ei gwrthod fel menyw ddigartref.

Mae'r adroddiad i mewn i Anghenion Clinigol y Digartref yng Ngwent ac Argymhellion ar gyfer Datblygu'r Gwasanaeth (2024) gan Dr Bronwen Davies, Seicolegydd Clinigol yn datgan nad oes gan 'Wasanaethau iechyd meddwl cyfredol yr hyblygrwydd, yr ysgogiad na'r adnoddau i weithio gyda'r boblogaeth hon yn effeithiol'.

Cwblhawyd yr archwiliad i gysgu allan 2017 [11], rhan o Gynllun Gweithredu Cysgu Allan – Llywodraeth Cymru yn 2018 [12]. Dilynwyd hyn yn 2019 [13]. Y mater a godwyd oedd yr anhawster i'r rhai oedd yn cysgu allan gael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau a iechyd meddwl integredig oherwydd mynychder anghenion sy'n cyd-ddigwydd. Argymhellodd yr adroddiad bod angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, mewn ffordd sy'n ystyriol o drawma, gyda dull heb ddrws anghywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig i'r grŵp hwn o bobl, a all beidio â chysylltu ag arbenigwr iechyd meddwl neu weithiwr camddefnyddio sylweddau yn y lle cyntaf ac efallai eu bod angen cymorth i lywio trwy'r system. Nid oedd unrhyw weithredu penodol i rywedd.

Defnydd o Sylweddau

Mae'r defnydd o sylweddau â chysylltiad agos â digartrefedd. Gall fod yn gaeth i gyffuriau neu alcohol arwain at broblemau ariannol, colli swydd, a thor-perthynas, sydd yn eu tro yn cynyddu'r risg o ddigartrefedd. Mae Casnewydd, fel llawer o ardaloedd trefol yn wynebu heriau yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau, a gall unigolion sydd wedi'u heffeithio â chaethiwed ei chael hi'n anodd i gael mynediad at gartref sefydlog neu gadw llety unwaith maent wedi cael cartref.

Mae Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent yn mynd ati'n weithredol i ymgysylltu â'r rhai hynny mewn ffordd o fyw sy'n seiliedig i'r stryd er mwyn lleihau niwed ac i'w helpu rheoli eu caethiwed a darparu mynediad at driniaeth a chymorth yn gyflym. Maen nhw hefyd yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol a landlordiaid preifat er mwyn diwallu anghenion tenantiaid er mwyn atal troi allan.

Cyfiawnder

Mae'r broses o sut mae cyfiawnder sy'n cynnwys menywod, yng Nghasnewydd yn gallu cael mynediad at gartrefi yn gymhleth. Er nad oes carchardai i fenywod yng Nghymru, mae menywod yn dychwelyd i Gasnewydd fel eu man cychwyn. Ar eu rhyddhau o'r carchar, nid yw llawer o fenywod yn gwybod i ble yr ânt ac nid ydyn nhw'n derbyn cymorth ar y diwrnod rhyddhau. Mae llety brys a roddir ar ryddhau yn aml yn cael ei rannu, o wahanol ryweddau, ac yn cynnig y cymorth lleiaf posibl. Ymhellach, mae'r gosodiadau hyn yn aml wedi'u lleoli mewn amgylcheddau lle mae

unigolion wedi profi camfanteisio neu gam-drin o'r blaen, gan eu gwneud yn ddi-fudd i fenywod sy'n ceisio osgoi dychwelyd i gaethiwed, gwaith rhyw neu drais domestig. Gall asesu a chymorth ar gyfer tŷ cyngor gymryd amser maith yn ystod yr hyn gall rhai menywod beidio ag ymgysylltu â'r broses, gadael y llety brys ac o bosibl dychwelyd i ffyrdd o fwy peryglus. Mae tai yn cael eu derbyn yn eang fel ffactor sy'n rhwystro ail-droseddu. Mae llawer o unigolion yn wynebu digartrefedd ar ôl gadael carchardai. Heb gymorth go iawn yn ystod y newid, gallan nhw gael trafferthion i gael cartref sefydlog ar eu rhyddhau. Yng Nghasnewydd, gall y rhai sy'n gadael y carchar neu ofal ganfod eu hunain heb le diogel i fyw, a chynyddu eu bregusrwydd i gael eu cam-drin, eu camfanteisio a digartrefedd.

Mewnfudo

Mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yng Nghasnewydd yn wynebu heriau unigryw mewn sicrhau tai sefydlog, gan gynnwys rhwystrau ieithyddol, diffyg cefnogaeth gyfreithiol, mynediad at fudd-daliadau sydd wedi'i gyfyngu. Mae llawer o fenywod yn dod ar draws anawsterau ychwanegol oherwydd y polisi NRPF, sy'n cyfyngu ar eu mynediad at wasanaethau cymorth hanfodol. Unwaith mae eu ceisiadau am loches wedi'u prosesu, maen nhw'n aml yn cael trafferthion i ganfod tai, ac yn cyfrannu at ddigartrefedd. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi datblygu pecyn cymorth sy'n sôn am y dyletswyddau penodol hyn [14]. Er bod gan Gasnewydd y boblogaeth ethnig ail uchaf yng Nghymru, a amcangyfrif ar hyn o bryd yn 13% [15], nid yw'r boblogaeth hon yn weladwy mewn gwasanaethau yng Nghasnewydd.

Croestoriadedd

Mae grwpiau neilltuol o fenywod yn debygol o cael eu heffeithio'n anghymesur, o ystyried bod cyfraddau tlodi yn sylweddol uwch ymysg pobl o'r grwpiau ethnig o Fangladesh (53%), o Pacistan (48%) a rhai Du (40%) nac ymysg pobl Wyn (19%), gan ei gwneud yn anoddach i dalu costau byw cynyddol [16]. Mae menywod sydd 'heb hawl i gyllid cyhoeddus', sy'n cael eu heithrio rhag hawlio budd-daliadau nawdd cymdeithasol, mewn perygl uchel o dlodi, ac yn aml amddifadedd, pe baent yn colli gwaith, neu'n gwahanu o bartner.

Mae menywod sy'n wynebu digartrefedd yn aml yn wynebu anghenion lluosog a chymhleth, megis problemau iechyd meddwl, camddefnydd sylweddau, a hanesion o drawma.

Fel yr ydym wedi archwilio, mae'r cymhlethdodau o gwmpas digartrefedd menywod yn arbennig o amlwg, yn amlygu'r angen brys am atebion wedi'u targedu. Yng Nghasnewydd mae 25 o fenywod wedi'u dosbarthu fel rhai sy'n cysgu allan ym mis Medi 2024, a llawer mwy yn byw mewn sefyllfaoedd ansefydlog fel syrffio ar soffas neu'n ymwneud â rhyw er mwyn goroesi. Mae gwir faint yr her yn llawer mwy na mae'r ystadegau sy'n cael eu hadrodd yn awgrymu.

Mae'r mynychder brawychus o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ansefydlogrwydd ariannol, a phroblemau iechyd meddwl, yn ychwanegu at y perygl o ddigartrefedd i fenywod. Mae'n amlwg fod llety dros dro, er eu bod eu hangen, yn aml yn methu â chyflawni darparu'r diogelwch a chymorth sydd eu hangen ar fenywod i newid i dai sefydlog. Mae'r risgiau mae menywod yn eu hwynebu yn yr amgylcheddau hyn, gan gynnwys trais, diffyg preifatrwydd, a mynediad annigonol at wasanaethau hanfodol yn tanlinellu'r angen brys am opsiynau tai mwy diogel, mwy cefnogol.

Mae'r croestoriad o ffactorau megis ethnigedd, statws economaidd, a thrawma blaenorol angen dealltwriaeth fwy cynnil er mwyn fynd i'r afael ag anghenion penodol menywod sydd ar y cyrion. Mae'r ystadegau sy'n tyfu yn ymwneud â menywod hŷn sy'n profi digartrefedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn dangos demograffig ar dwf sy'n mynnu sylw ar unwaith.

Pennod Pedwar: **Darpariaeth a Galw**



Y prif ddarparwr a chomisiynydd gwasanaethau yng Nghasnewydd yw Cyngor Dinas Casnewydd. Yng Nghasnewydd, mae gan fenywod sy'n profi digartrefedd fynediad at wahanol systemau cymorth, er fod y galw am wasanaethau wedi bod yn cynyddu. Mae galw am wasanaethau digartrefedd yng Nghasnewydd wedi bod yn cynyddu'n gyflym yn y blynyddoedd diweddar. Er enghraifft, yn 2023, cynyddodd y nifer o aelwydydd mewn llety dros dro, gyda mwy na 450 o achosion yn cael eu cofnodi. Mae menywod yn cynrychioli rhan sylweddol o'r rhai sy'n ceisio help, yn arbennig oherwydd cam-drin domestig a thrais rhywiol a theuluoedd yn torri i lawr.

Yn nhermau tueddiadau ehangach, bu i Gymru weld dros 10,000 o fenywod geisio help am ddigartrefedd yn 2017 yn unig, ac mae'n debygol fod y niferoedd wedi cynyddu ers hynny oherwydd pwysau economaidd a'r argyfwng tai. Nid yw'r bennod hon yn rhestr gynhwysfawr o bob darpariaeth ar draws Casnewydd.

Mae'r llinell Byw Heb Ofn yn wasanaeth cymorth cyfrinachol yng Nghymru, gan gynnwys Casnewydd, wedi'i hanelu at helpu unigolion sydd yn cael eu heffeithio gan gam-drin domestig, trais rhywiol, neu mathau eraill o drais. Mae'r llinell gymorth yn rhad ac am ddim, ac ar gael 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos. Yn bwysig, ni fydd galwadau i'r llinell gymorth yn dangos ar fil ffôn llinell tir.

Gwasanaethau Menywod

Mae'r Grant Cymorth Tai yng Nghymru yn rhaglen gyllido wedi'i dylunio i roi adnoddau ariannol i awdurdodau lleol a sefydliadau i gefnogi unigolion sy'n ddigartref neu mewn perygl o ddigartrefedd. Cynhyrchodd Cyngor Dinas Casnewydd Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-2026 Datganiad o Angen er mwyn goleuo Cymorth Tai Strategaeth y Rhaglen. Mae hyn yn cynnwys adran ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac yn amlygu fod Casnewydd wedi cofnodi'r rhif mwyaf o gynadleddau amlasiantaeth asesu risg (MARAC). Mae'r rhain yn gyfarfodydd lleol, amlasiantaeth wedi'u canolbwyntio ar ddioddefwyr lle rhennir gwybodaeth am yr achosion o gam-drin o berygl uchaf rhwng gwahanol asiantaethau statudol a sector gwirfoddol. Achosion yng Nghasnewydd, bron bob mis eleni; yn cynnwys rhwng 24% a 42% o bob achos yng Ngwent [17].

"Dw i wedi blino. Dw i wedi blino bob dydd. Mae fy sanau i'n wlyb ddiferol, mae fy nhraed i'n brifo a dw i'n oer. Dw i wedi cerdded o amgylch y strydoedd am oriau ac oriau. Pa na all rhywun fy helpu i?"

Mae'r prif ddarpariaethau ar gyfer menywod digartref yn aml yn canolbwyntio ar y rhai sy'n dianc rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a chamfanteisio rhywiol, y rhai sydd â heriau iechyd meddwl, a mamau ifanc. Mae sefydliadau fel **Llamau** yn chwarae rôl allweddol mewn cefnogi menywod digartref yng Nghasnewydd, gan gynnig llety diogel, penodol i rywedd a chymorth. Mae'n well gan lawer o fenywod beidio â defnyddio llety rhywedd cymysg oherwydd pryderon diogelwch, yn arbennig os ydyn nhw wedi profi cam-drin. Sefydlwyd Llamau ym 1986 er mwyn darparu lle diogel i aros i rai yn eu harddegau. Mae Llamau yn cefnogi Cynlluniau Llety yng Nghasnewydd lle mae unigolion neu deuluoedd yn cynnig ystafell ac amgylchedd cefnogol i berson ifanc sy'n ymdrechu i ail-adeiladu ei fywyd ar ôl digartrefedd.

Mae Llamau yn cynnig amryw o ddewisiadau llety, gan gynnwys tai brys, byw â chymorth ac atebion tai tymor hirach. Mae Llamau hefyd yn rhedeg prosiect llety a chymorth 24 awr un pwrpas cyntaf yng Nghymru i bobl ifanc LHDTC+ sy'n ddigartref. Mae Tŷ Clifton yn lety penodol i rywedd,dros dro a rennir ac a gefnogir (a gomisiynir drwy Gyngor Dinas Casnewydd), ar gyfer menywod 16+ gydag ystod o anghenion cymorth cymhleth. Mae'n cael ei staffio 24 awr ac mae ganddo bum uned. Yn 2023/24 cefnogwyd saith menyw, cyn belled yn 2024/25, mae dwy fenyw wedi symud ymlaen a dwy arall yn cael eu cefnogi. Mae Tŷ Clifton wedi helpu naw o fenywod i gyd.

Mae **Cymorth i Fenywod Cyfannol** yn darparu cymorth arbenigol i fenywod sy'n profi unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gan ganolbwyntio ar ddiwallu eu hanghenion a'u heriau unigryw. Mae menywod sy'n wynebu digartrefedd yn cael eu cefnogi yn seiliedig ar eu hamgylchiadau unigol, gyda chynlluniau cymorth personol sy'n canolbwyntio ar anghenion cymorth yn ymwneud a thai presennol a nodau tymor hirach, sy'n cyfrannu at rwystro ddigartrefedd.

Mae Cymorth i Fenywod Cyfannol yn helpu menywod lywio drwy systemau tai, cael mynediad at fudd-daliadau, a deall eu hawliau ac yn darparu rhaglenni wedi eu hanelu at rymuso menywod trwy ddeall eu profiadau, datblygu sgiliau ac adeiladu hyder. Mae Cymorth i Fenywod Cyfannol yn cynnig ystod o eiddo cymunedol a lloches wasgaredig, wedi'u comisiynu drwy Gyngor Dinas Casnewydd, gyda chapasiti ar gyfer 16 o welyau Yn ychwanegol at hyn, mae Tŷ Arcadia yn cynnig pum uned o dai â chymorth yn benodol ar gyfer menywod sydd wedi'u camfanteisio'n rhywiol.

Mae Tŷ Arcadia yn rhan o wasanaethau cymorth trais rhywiol **Horizon** – prosiect Cyfannol yn cefnogi goroeswyr unrhyw fath o drais rhywiol gan gynnwys camfanteisio. Mae gwasanaethau cefnogi camfanteisio rhywiol yng Nghasnewydd ar gael i fenywod sydd wedi profi camfanteisio rhywiol neu mewn perygl o gamfanteisio o'r fath.

Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer menywod, yn ateb eu profiadau ac anghenion unigryw mewn perthynas â chamfanteisio rhywiol. Mae cymorth ar unwaith yn cael ei gynnig i fenywod mewn argyfwng, yn eu helpu gael mynediad at lety diogel a chymorth brys. Tu draw i hyn, mae menywod yn cael eu grymuso trwy hawliau eiriolaeth i ddeall eu a'u cefnogi i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth am eu dyfodol.

Mae tîm **Horizon** yn creu gofod diogel ac anfeirniadol lle gall menywod rannu eu profiadau a derbyn cymorth heb stigma; gan weithio ar egwyddorion yn hytrach na rhag-amodau, sy'n golygu eu bod yn gallu gweithio gyda menywod a fyddai fel arall ddim wedi rhyngweithio â gwasanaethau fel rheol. Mae'r ymddiriedaeth sydd ei hangen i fenywod allu cyrchu'r gwasanaeth hwn yn cymryd blynyddoedd i'w hadeiladu. Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ystyried yn ymarfer da ac mae cyfle i adeiladu ar a dysgu oddi wrth Horizon.

Mae **BAWSO** yn elusen Gymreig sy'n cefnogi menywod Du, Asiaidd, a lleiafrifoedd ethnig a'u teuluoedd sydd wedi profi trais a cham-drin. Mae'n cynnig amryw o wasanaethau gan gynnwys cyngor, eiriolaeth, a chymorth i'r rhai sy'n wynebu trais domestig, trais rhywiol, a mathau eraill o gam-drin. Mae BAWSO yn anelu at rymuso unigolion trwy gymorth wedi'i deilwra a chodi ymwybyddiaeth o'r heriau penodol a wynebir gan gymunedau o fenywod lleiafrifol ethnig yng Nghymru. Mae gan BAWSO hefyd loches gyda chapasiti o wyth lle. Cefnogwyd 16 o fenywod yn 2023/24 ac mae un person newydd yn cael ei gefnogi yn 2024/25. Mae BAWSO hefyd yn cynnig cymorth arnofiol i fenywod sy'n profi cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn 2023/24, cefnogwyd 62 o fenywod ac yn 2024/25 (Medi), mae 41 wedi'u cefnogi, gyda 23 o'r rhain yn rhai newydd. Mae angen darn penodol o waith gyda BAWSO er mwyn deall y gofyn a'r diwylliannau y maen nhw'n gweithio ynddynt.

Tai

Mae **Cyngor Dinas Casnewydd** yn cynnig ystod o lety, gan gynnwys llety dros dro heb gymorth ar gyfer y rhai heb anghenion cymorth a llety â chymorth a gomisiynwyd. Mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn gweithio'n glòs â landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (RSLs) er mwyn darparu mynediad at dai cymdeithasol gyda'r nod o gynnu'r ddarpariaeth hynny. Mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd wedi cefnogi partneriaid i ddatblygu prosiectau arloesol fel y prosiect tai modiwlar y Stryd yr Allt a reolir gan Linc.

Mae'r **Prosiect Drysau Agored** yn wasanaeth cymorth amlochrog sy'n cael ei redeg gan Fyddin yr Iachawdwriaeth a'i gomisiynu gan Gyngor Dinas Casnewydd. Mae'r Prosiect Drysau Agored yn darparu cymorth arnofiol i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro yng Nghasnewydd ac yn darparu allgymorth grymusol i unigolion sydd heb do ac yn cysgu allan yng Nghasnewydd. Mae hefyd cyfleusterau galw heibio saith diwrnod yr wythnos yng Nghasnewydd. Ar gyfer unigolion sy'n cysgu allan, maen nhw'n gweithredu Gwasanaeth Allgymorth Ben Bore yn darparu diodydd poeth, byrbrydau brecwast a throthwy isel o ymgysylltu parhaus. Dyma'r dull sut mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cadarnhau eu cysgwyr allan swyddogol a ddilyswyd er mwyn adrodd i Lywodraeth Cymru. I gael ei ddosbarthu fel cysgwr allan dilys, mae rhaid gweld unigolyn a'i gyfrif amser brecwast sy'n cael ei gynnal bob dydd. Mae'r Prosiect Drysau Agored hefyd yn cynnig ymyriadau allgymorth ymatebol cyflym bob diwrnod gwaith. Ymgysylltir â phobl sydd ar hyn o bryd yn cysgu allan yn rheolaidd, ac yn cael eu cefnogi ar bob achlysur er mwyn adeiladu ymddiriedaeth mewn gwasanaethau. Y nod yw gwella llesiant y rhai sy'n cysgu allan gymaint â phosibl ac i greu llwybrau i lety.

Data - VRS

01/10/2023 - 01/10/2024

Rydyn ni wedi cefnogi gyda **137 o gysgwyr allan a ddilyswyd (VRS).**

- Roedd 107 (78%) o'r rhain yn ddynion
- Roedd 29 (21%) o'r rhain yn fenywod
- Doedd 1 (~1%) person ddim yn dymuno datgelu eu rhywedd

Cyfartaledd oedran y menywod rydyn ni wedi gweithio â nhw yw 37.

Nododd 9 o'r menywod hyn yn adnabod bod ganddyn nhw **anabledd cydnabeddedig**



Data - Galw heibio

01/10/2023 - 01/10/2024

Rydyn ni wedi cefnogi **284 o gysgwyr allan/ rhai a letywyd yn fregus/pobl yn aros dros dro yn ein canolfan galw heibio.**

- Roedd 242 (85%) o'r rhain yn ddynion
- Roedd 41(14%) o rhain yn fenywod
- Doedd 1 (~1%) person ddim yn dymuno datgelu eu rhywedd.

Mae llawer o'r menywod sy'n cysgu allan yn rhan o gyplau gyda deinameg cymhleth. Yn aml mae rhyw fath o drais domestig yn y berthynas ochr yn ochr anghenion eraill, gan gynnwys anghenion corfforol a meddyliol a defnydd o sylweddau. Yn aml, gall bod yn rhan o gwpl wneud cymorth yn anoddach i'w gynnig. Mae'n wastad her wrth geisio cadw cydbwysedd diogelu pob unigolyn yn erbyn ei ddymuniad i aros gyda'i gilydd fel cwpl. Mae gan lawer o fenywod sy'n cael eu cefnogi

gan y Prosiect Drysau Agored anghenion iechyd corfforol, anghenion iechyd rhywiol ac anawsterau iechyd meddwl. Mae'r rhan fwyaf wedi profi trawma sylweddol cyn, ac yn ystod, cyfnodau o gysgu allan. Gall hyn hefyd ei arddangos mewn ymddygiadau o gymryd risgiau uwch, gan gynnwys cymryd rhan mewn perthnasau ansefydlog, a defnyddio llawer o sylweddau.

Mae'r Prosiect Drysau Agored hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod Cyfannol er mwyn sicrhau bod y menywod sy'n ymgysylltu â nhw yn deall y cymorth arbenigol a all fod ar gael iddyn nhw pe bai angen.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi comisiynu gwasanaeth tai ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth, sy'n cael ei gyflenwi gan Pobl. Mae i'r **Llety â Chymorth Anghenion Cymhleth (Stryd Albert Street)** 25 o lefydd ac yn gweithio gyda'r bobl mwyaf cymhleth na ellir rhoi tai iddyn nhw yn unman arall. Dadfeddiannu yw'r man galw olaf yn hytrach na'r cyntaf. Fel gyda Thŷ Arcadia, mae Stryd Albert hefyd yn gweithio ar egwyddorion yn hytrach na rhagamodau. Gan ddefnyddio dull o roi'r person wrth galon y mater, maen nhw'n gweithio gyda phobl yn y tymor hir, yn darparu gwasanaethau cofleidiol, ac yn rhoi offer i bobl i aros mewn tenantiaeth a'i cadw mewn cartref. Fel Tŷ Arcadia, gall hyn fod yn weledigaeth sy'n ysbrydoli a gall llawer gael ei ddysgu a'i ddefnyddio mewn mannau eraill yn y sector tai. Ar hyn o bryd mae 22 o bobl ar restr aros yn disgwyl cael mynediad i Stryd Albert. Yn 2023/24, mae 45 o bobl wedi cael eu cefnogi, saith ohonynt yn fenywod. Yn ystod mis Ebrill – mis Medi 2024/25, cefnogwyd 39 o bobl, mae pump o'r rhain yn fenywod newydd, gyda chyfanswm o wyth o fenywod yn cael eu cefnogi. Mae Stryd Albert yn brosiect gwych, ond efallai nid yw'r amgylchedd cymysg yn cynnig lle diogel i fenywod sydd wedi profi camfanteisio rhywiol neu gam-drin a gallant cael cyfnodau o ail drawma. Mae cyfle i wireddu'r uchelgais yn y Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022 a gwneud darpariaeth o lety diogel, penodol i rywedd er mwyn diogelu menywod rhag niwed pellach trwy gael gwasanaeth sy'n benodol i rywedd sy'n dysgu o Stryd Albert ac sy'n ehangach na chamfanteisio rhywiol.

Mae **Pobl** yn sefydliad tai a gofal Cymreig sy'n darparu ystod o wasanaethau i gefnogi unigolion a chymunedau yng Nghymru. Mae'r enw "Pobl" yn adlewyrchu eu ffocws ar gymuned a llesiant unigol. Mae Pobl yn cynnig tenantiaethau a llety mewn hosteli ochr yn ochr â byw â chymorth.

Mae Pobl yn cynnig gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn benodol i fenywod. Mae'r model Tai yn Gyntaf yn canolbwyntio ar darparu unigolion â thai parhaol, ynghyd â gwasanaethau cymorth cofleidiol wedi'u teilwra i'w anghenion. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig gwasanaethau cymorth personol, gan gynnwys help gyda iechyd meddwl a defnydd o sylweddau. Mae'r rhaglen yn pwysleisio grymuso, yn helpu menywod i adennill rheolaeth ar eu bywydau ac yn annog annibyniaeth. Mae cefnogaeth yn ymestyn y tu hwnt i dai i gynnwys mynediad at addysg, cyfleoedd cyflogaeth, ac adnoddau cymunedol. Mae cyfle i weithio gyda Pobl er mwyn deall os yw egwyddorion y modelau ar gyfer Tŷ Arcadia a Stryd Albert yn gallu cael eu trosglwyddo i'r prosiect Tai yn Gyntaf



Iechyd a Gofal

Mae **Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent (GDAS)** yn darparu gwasanaethau cyfrinachol, diogel ac am ddim ar gyffuriau ac alcohol. Mae Gwasanaeth Allgymorth Grymusol GDAS yng Nghasnewydd wedi'i gomisiynu trwy Grant Cymorth Tai Casnewydd a'r Bwrdd Cynllunio Ardal (sefydlwyd yn 2010) fel rhan o'r trefniadau newydd i gyflenwi strategaeth camddefnyddio sylweddau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' [18]. Er mwyn ateb yr anghenion sy'n cyd-ddigwydd o ddefnyddio sylweddau a thai a darparu'r cymorth sydd ei angen i atal pobl â defnydd o sylweddau ac anghenion cymhleth eraill rhag mynd yn ddigartref, sefydlogi eu sefyllfa dai, neu'n helpu pobl ddigartref bosib ganfod a chadw llety.

Mae GDAS yn cefnogi pobl agored i niwed ateb anghenion cymhleth lluosog megis dyled, cyflogaeth, rheoli tenantiaeth, camddefnydd sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a phroblemau iechyd meddwl. Mae cefnogaeth yn rhoi y person wrth galon, wedi'i hanelu at gefnogi pobl sicrhau a chynnal tai cynaliadwy trwy ateb yr iechyd meddwl a chamddefnydd o sylweddau neu broblemau eraill maen nhw'n eu hwynebu, helpu gwella eu hiechyd a'u llesiant a/neu eu helpu i symud ymlaen i, neu'n nes at, swydd neu cyfle i hyfforddi yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol.

Mae GDAS yn darparu dulliau cyflym, hyblyg ac ymatebol er mwyn ymgysylltu â a chefnogi pobl ddigartref, gan gynnwys y cynnig o gymorth ar adegau a mannau sy'n fuddiol i'r unigolyn; yn cynyddu'r capasiti a gallu unigolion neu aelwydydd er mwyn atal ddigartrefedd; a chynnal cartref neu alluogi mynediad at dai addas ar gyfer unigolion neu aelwydydd. Un o ffwythiannau canolog fel gwasanaeth yw trefnu mynediad at wasanaethau eraill dros bobl sydd ag angen am dai, llywio drwy systemau ac eiriol yn gadarn lle mae rhwystrau i fynediad neu gymorth.

Mae GDAS yn gweithio'n glòs gyda Cymorth i Fenywod Cyfannol a'r Gwasanaeth Trais Rhywiol Horizon i gefnogi y rhai sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth er mwyn diwallu eu hanghenion arbenigol wrth ddarparu sadrwydd trwy staff cefnogol, gan sicrhau bod cysondeb gyda phwy maent yn ymgysylltu â nhw ar bob cam o'u siwrne.

Gwelwyd o leiaf 1774 o fenywod o leiaf un waith eleni gan GDAS, gyda 91 ohonynt un ai yn ddigartref ar amser yr asesiad neu roedd eu cyfeiriadau'n dangos eu bod yn ddigartref ar hyn o bryd. Mae 123 o fenywod a ymgysylltodd â GDAS wedi'u marcio fel bod mewn llety dros dro neu ansefydlog. O'r 91, mae 54 o'r menywod yn famau, ac 17 o'r 91 wedi ymgysylltu â'n llwybr Cyfiawnder Troseddol



Mae'r rhan fwyaf yn Wyn Prydeinig gyda dwysedd ethnig isel.

Ethnigedd	#
Gwyn Prydeinig	86
Arabaidd	1
Du Prydeinig	1
Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig	1
Gwyn/Asiaidd	1
Heb roi ethnigedd	1

Oedran	#
19 ac iau	4
20 - 25	12
26 - 35	33
36 - 45	36
46 - 55	4
55 a throsodd	2

Prif sylwedd y 91 yw:



Mae **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPAP)** yn darparu llawer o wasanaethau sy'n cefnogi y boblogaeth o bobl ddigartref, nid oes unrhyw wasanaethau penodol ar rywedd. Mae Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd, Tîm Hybu Seicoleg a gwasanaethau iechyd meddwl.

Mae'r **Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd** yn darparu cymorth wedi'i deilwra i fenywod sy'n agored i niwed sy'n wynebu rhwystrau i gael mynediad at ofal iechyd, gyda ffocws arbennig ar ateb yr heriau unigryw maent yn dod ar eu traws. Mae menywod sy'n ddigartref, yn ceisio lloches, neu'n ymdrin â cham-drin domestig a thrais rhywiol, defnydd o sylweddau, anghenion iechyd meddwl ac iechyd corfforol yn aml yn wynebu peryglon penodol ac maent angen gofal sensitif sy'n ystyriol o drawma. Yn aml, mae menywod sy'n cyrchu'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd wedi profi trawma, gan gynnwys trais domestig, camfanteisio rhywiol, neu gam-drin. Mae'r gwasanaeth yn mabwysiadu dull sy'n ystyriol o drawma, gan gydnabod effaith profiadau o'r fath ar iechyd a llesiant menywod. Mae'r dull hwn yn sicrhau y darperir gofal mewn amgylchedd diogel a chefnogol, gan gymryd i ystyriaeth effeithiau seicolegol, emosiynol, a chorfforol trawma.

Gallai menywod sy'n profi digartrefedd, camddefnydd sylweddau, neu fregusrwydd arall wynebu heriau wrth gyrchu gwasanaethau iechyd mamolaeth ac atgenhedlu. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd yn cynnig cyfeirio ac mae'n gweithio ochr yn ochr â nyrs iechyd rhywiol arbenigol i fenywod er mwyn cael mynediad at atal cenhedlu a gwasanaethau iechyd rhywiol, a helpu menywod reoli eu hiechyd atgenhedlu mewn dull diogel a chyfrinachol. Cynigir gofal a chymorth beichiogrwydd ar gyfer menywod digartref neu'r rhai mewn llety dros dro hefyd, yn sicrhau eu bod wedi'u cofrestru â phractis meddyg teulu ac yn derbyn gofal cyn-beichiogiad, cyn-geni, ac ôl-enedigaeth gan y fydwraig a ddyrannwyd iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cymorth i famau newydd, yn arbennig y rhai sy'n wynebu ansefydlogrwydd tai, a chael mynediad at wasanaethau iechyd ar gyfer eu plant. Mae menywod digartref yn aml mewn perygl uwch o drais, camfanteisio rhywiol, a chymhlethdodau iechyd o'u cymharu â dynion. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd yn darparu allgymorth i fenywod mewn llochesau, hosteli, neu ar y strydoedd, gan sicrhau bod ganddyn nhw fynediad at wasanaethau gofal iechyd mewn mannau diogel sy'n gyfeillgar i fenywod. Mae llawer o fenywod sy'n agored i niwed yn wynebu problemau iechyd cymhleth, gan gynnwys heriau iechyd meddwl (fel gorbryder, iselder, neu anhwylder straen ôl-drawmatig) a chamddefnyddio sylweddau. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd yn gweithio mewn

partneriaeth â sefydliadau sy'n arbenigo mewn cefnogi menywod mewn llochesau menywod, llety dros dro ac elusennau sy'n canolbwyntio ar iechyd menywod. Mae hyn yn sicrhau bod menywod sy'n cyrchu'r gwasanaeth yn derbyn cefnogaeth gynhwysfawr, nid yn unig ar gyfer eu hiechyd ond hefyd am eu anghenion tai, cyfreithiol, a chymdeithasol. Mae menywod sy'n ceisio lloches a ffoaduriaid yn wynebu rhwystrau eraill, megis iaith, heriau cyfreithiol, a gwahaniaethau diwylliannol. Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd yn darparu gofal sy'n sensitif yn ddiwylliannol, gan barchu anghenion a chefndiroedd penodol menywod o wahanol gymunedau.

Gwelodd y Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd 96 o fenywod digartref a phum gweithiwr rhyw o ddechrau'r gwasanaeth ym mis Mawrth 2020 – mis Medi 2024; ar gyfartaledd 24 o fenywod digartref y flwyddyn.

Mae **Gwent Boost** yn prosiect y Loteri Genedlaethol a ariannir dros gyfnod o bum mlynedd gyda'r nod o roi hwb i beth sydd eisoes yn gweithio i roi diwedd ar ddigartrefedd yng Ngwent. Mae'r prosiect yn ddull amlasiantaeth, yn cyfuno adnoddau o wahanol sefydliadau er mwyn diwallu anghenion cymhleth y rhai a effeithir arnynt. Mae gwahanol ffrydiau o waith, gan gynnwys y cymorth seicolegol clinigol ar draws Gwent. Mae BIPAB yn darparu'r elfen cymorth seicoleg o'r prosiect Gwent Boost.

Mae'r **Grŵp Cyd-ddigwydd** yn grŵp amlasiantaeth gyda'r Seicolegydd Clinigol yn ei gadeirio sy'n arwain y Gwasanaeth Boost sy'n croesi defnydd o sylweddau ac iechyd meddwl, er nad yw'n wasanaeth yn gyfyngedig i fenywod. Yn gyffredinol, nid oes gan wasanaethau iechyd meddwl gymhareb uwch o weithwyr yng Nghasnewydd er gwaethaf y nifer uwch o bobl sy'n cysgu allan a hosteli ar draws Gwent.

Mae amryw o dai â chymorth gyda landlordiaid preifat ar draws Casnewydd sy'n cefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl, gyda chyfanswm capasiti o 73 o welyau. Yn ogystal i fyw â chymorth, mae hefyd cymorth arnofiol, gyda chyfanswm capasiti ar gyfer 24 o bobl. Mae gan **MIND** dai â chymorth gyda chapasiti ar gyfer 20 o bobl a chymorth arnofiol ar gyfer 90 o bobl (Cyfeirlyfr ar gyfer y Gwasanaeth Tai â Chymorth yng Nghasnewydd 2023/24).

Cyfiawnder

Mae'r **Ymddiriedolaeth Nelson** yn gallu cefnogi menywod ar unrhyw adeg yn y system cyfiawnder troseddol, gan gynnwys darparu cymorth i'r menywod hynny sydd mewn perygl.

Mae pedair canolfan i fenywod ar draws Cymru, gan gynnwys y ganolfan ddiweddaraf yng Nghasnewydd ym mis Medi 2024. Trwy ddull sy'n rhoi'r fenyw yn gyntaf, mae'r Ymddiriedolaeth Nelson yn darparu cymorth cyfannol a phersonol ar draws llwybrau angen, yn cynnwys trawma a cham-drin; teuluoedd a pherthnasau; llety; cyllido dyled a budd-daliadau; meddwl am agweddau ac ymddygiad; hyfforddiant addysg a chyflogaeth; trais rhywiol; defnydd sylweddau; iechyd corfforol ac emosiynol a llesiant. Mae hyn yn cael ei gyflawni trwy ddull sy'n ystyriol o drawma a wreiddir mewn perthnasoedd.

Mae dull y ganolfan i fenywod yn darparu lle diogel i gyrchu cymorth un i un, ymyriadau grŵp, cyfleusterau crèche, gweithgareddau TG ac ymgysylltu, yn ogystal â chymorth ymarferol gan gynnwys clybiau cinio a brecwast dyddiol, mynediad at roddion a chyfleusterau ymolchi. Mae'r canolfannau i fenywod yn cynnig cyd-leoliad gwasanaethau'r trydydd sector a statudol, gan alluogi model siop un stop i fenywod gyrchu cymorth o un le diogel, gyda'r nod o dorri rhwystrau i lawr sydd wedi rhwystro menywod rhag gyrchu gwasanaethau o'r blaen. Mae'r gwasanaeth profiannaeth wedi'i gyd-leoli yn y canolfannau i fenywod, yn ogystal â nyrsys iechyd rhywiol, hyfforddiant addysg a chynghorwyr cyflogaeth, a Chyngor ar Bopeth.

Darperir cymorth ail-sefydlu i fenywod wedi iddynt gael eu rhyddhau o Garchar Eastwood Park. Gan weithio'n agos â thîm Ymddiriedolaeth Nelson, mae menywod yn cael eu paratoi ar gyfer y diwrnod rhyddhau, diwallu anghenion sydd ar fin digwydd menywod yn nhermau cymorth â chludiant, cyrchu llety priodo, adnewyddu hawliau i fudd-daliadau, mynediad at bethau sylfaenol megis dillad, parseli bwyd a chynhyrchion hylendid personol ac ati. Mae'r gwaith hwn yn ategu at gyfarfodydd misol i fraenaru menywod sy'n amlasiantaethol i ystyried dewisiadau tai a chymorth cyn y rhyddhau.

Pennod Pump: **Yr Heriau**

Amgylchedd Economaidd Cymdeithasol

Costau byw uwch yw'r effaith a'r her fwyaf i fenywod. Mae'r awyrgylch economaidd gymdeithasol yn llifo drwy pob achos o ddigartrefedd menywod. Yng Nghasnewydd, mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ddiffyg cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Mae diffyg tai fforddiadwy, mae prinder eiddo ar rhent, diffyg tai un rhyw sy'n holl-bwysig i ddioddefwyr VAWDASV er mwyn teimlo'n ddiogel, ac nid yw llety dros dro yn addas ar gyfer datblygu bywyd teuluol (diffyg adnoddau i goginio).

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)

Fel a nodwyd mewn man arall o'r adroddiad hwn, gall llawer o ddioddefwyrVAWDASV beidio â chydnabod eu bod yn dioddefwyr cam-drin domestig, trais rhywiol a/neu gamfanteisio rhywiol. Pan fydd menywod yn adnabod eu bod yn ddioddefwr, gall cael help fod yn anodd, gan fod llwybrau i gymorth fod yn anodd i'w llywio yng Nghasnewydd. Ar gyfartaledd, mae'n cymryd saith gwaith i fenyw estyn allan am gymorth cyn gadael [19]. Mae cyfle i ddarparu cyngor ataliol a chymorth, o bosibl cyfyngu ar yr amser mae menywod yn eu treulio mewn llochesau a llety dros dro.

Y llwybr ar gyfer cyngor presennol yw drwy 'Gateway'; llinell ffôn mynediad Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer pob gwasanaeth. Mae hyn yn golygu pan fod gan fenywod cyfnod o amser cyfyngedig i gael cyngor a chymorth gall fod yn anodd, felly gallai bod â gweithiwr ymyriad buan gefnogi rhywfaint o'r ymgysylltu â gwasanaethau.

"Ces i fy ymosod arnaf yn rhywiol gan gwsmer a'm gadawodd yn y stryd heb ddillad amdanaf. 'Swn i wedi gwneud rhywbeth ar y pryd er mwyn cael rhywle diogel am y noson. Dw i'n dal i gredu pe buasai gen i rywle diogel i fynd iddo ar ôl beth ddigwyddodd i mi, 'swn i wedi riportio'r ymosodiad i'r Heddlu, ond wnes i ddim - Rô'n i allan ar y strydoedd ac angen gwneud yn siŵr mod i'n cadw fy hun yn ddiogel am weddill y noson honno."

Yn gyffredin i lawer o feysydd eraill, nid oes digon o lefydd lloches, fodd bynnag, fel a ddisgrifiwyd ym Mhennod Dau, mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) (2016) yn anfwriadol wedi gwneud cyrchu llefydd lloches yn anoddach fyth. Yn ogystal, mae llawer o rag-amodau ar gyfer llefydd mewn llochesi sy'n gwneud synnwyr i ddiogelu pawb arall yn y lloches ond ei gwneud hi'n amhosibl i gefnogi y rhai hynny sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae'r mwyafrif o lochesau a llety dros dro yn cael eu hariannu gan y grant cymorth tai, mae hyn yn golygu bod ffocws ar 'angen am dai' a menywod yn cael eu holi am hyn fel cwestiwn cyntaf er mwyn cael y cymorth sydd ei angen, yn hytrach na thybio bydd gan bob menyw sy'n profi VAWDASV angen tai.

Mae dyletswydd o hyd ar y person i ddangos eu bod yn ddioddefwr yn hytrach na cael eu derbyn ar eu golwg. Mae hyn yn arbennig o anodd pan fod gan fenywod nifer o anawsterau. Mae her bellach ag ymddiriedaeth broffesiynol lle mae angen prawf o gam-drin domestig a thrais rhywiol, defnyddio cyffuriau neu ddigartrefedd yn hytrach na derbyn atgyfeiriadau'n weithredol. Mae hyn yn cael ei gymhlethu gan fod cymaint o wasanaethau cnewllyn o dimau mewn lle oherwydd salwch a thoriadau i'w cyllideb.

O fewn sefydliadau mae diffyg dealltwriaeth o'r 'holi a gweithredu' (proses o ymholi wedi'i dargedu i'w hymarfer ar draws yr awdurdodau perthnasol er mwyn adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol) a'r defnydd ymarferol o alwedigaethau yn dod i gysylltiad â'r menywod hynny sy'n ddioddefwyr VAWDASV, mae hyn yn cael ei gymhlethu ymhellach gan ddiffyg dealltwriaeth o lefydd diogel ar gyfer menywod.

Cydnabyddir bod angen ar draws y system gwella ymarfer sy'n ystyriol o drawma a sut ymatebir menywod sy'n cyrchu pob gwasanaeth. Er bod niferoedd da yn bresennol ar ddiwrnodiau hyfforddi ar gyfer staff mewn gwasanaethau, mae angen mwy i sicrhau bod ymarfer wedi ei blannu'n llwyr.

Salwch Meddwl

Mae stigma'n gysylltiedig â salwch meddwl ac mae rhai ymddygiadau'n cael eu camddehongli fel anodd a'u gweld yn ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae angen dealltwriaeth ehangach am y rhesymau mae menywod yn ei chael hi'n anodd ymgysylltu â gwasanaethau ac mae angen gwaith i annog gwasanaethau i addasu er mwyn ateb eu hanghenion yn hytrach na fel arall. Fel rhan o'i Raglen Trawsnewid, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi buddsoddi mewn ehangu ei Dîm Cyngor Tai ac Atal. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae uchelgais strategol i gyd-leoli swyddogion mewn cymunedau er mwyn cefnogi ymyriadau cynharach a chwrdd â phobl mewn amgylchoedd dibynadwy. Mae menywod sy'n profi llawer o anfanteision yn aml yn ei chanfod hi'n anodd i gynnal llety am nifer o resymau, gan gynnwys iechyd meddwl a'r defnydd o sylweddau. Gall hyn arwain at rybuddion, ac, yn y pen draw, colli'r denantiaeth. Mae angen ar bob asiantaeth i ystyried sut gellir darparu cymorth er mwyn galluogi landlordiaid i gynnig dull mwy hyblyg gyda'r person wrth ei galon. Weithiau, mae ychydig iawn o gyfle mewn llety i weithio gyda rhywun ar sut i gadw tenantiaeth cyn cael un a all gymryd blynyddoedd o waith. Mae'r allgymorth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn gyfyngedig o ran angen ac mae hyn yn golygu bod y rhai â'r mwyaf o angen yn ei chanfod yn

anodd i gyrchu gwasanaethau i'w cefnogi ar lwybr i dai. Mae rhagfarn rhywedd mewn gwasanaethau iechyd meddwl, lle nid yw menywod yn cael eu cymryd o ddifrif, a'u problemau'n cael eu priodoli i ansadrwydd . Mae angen tynerwch i fenywod sy'n hunan-niweidio neu sydd â thueddiadau hunanladdol, gan gellid diystyru eu hymddygiad fel ceisio sylw. Mae llawer o wasanaethau iechyd meddwl yn dilyn model tra feddygol nad yw bob tro yn ateb anghenion menywod ag ansadrwydd emosiynol yn ddigonol. Mae hyn yn aml yn arwain at y fenyw yn cael ei gwthio allan o wasanaethau. Pwysleisiodd cadeirydd y Grŵp Cyd-ddigwyddiad yr angen am fwy o gymorth tosturiol a phriodol i fenywod sy'n ystyriol o drawma.

Defnydd o Sylweddau

Mae nifer o nodweddion sy'n debyg rhwng y defnydd o sylweddau a salwch meddwl, yn arbennig y rhagdybiaethau a wneir am y menywod. Mae'r croestoriad rhwng y defnydd o sylweddau a salwch meddwl yn golygu bod pobl yn cael eu bownsio rhwng y ddau wasanaeth yn ceisio deall a yw'r broblem wedi'i hachosi gan y defnydd o sylweddau neu'r salwch meddwl a pha un a greodd y llall. Mae hyn golygu nad ydym yn cofleidio gwasanaethau o amgylch y person a gall hyn oedi triniaeth. Dyma le mae'r Grŵp Cyd-ddigwyddiad yn chwarae rôl bwysig. Fel pob gwasanaeth, gall yr amser aros i gael mynediad at wasanaethau fod yn hir. Mae'r defnydd o chaethiwed i sylweddau hefyd yn cynyddu achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gwneud y defnyddwyr gwasanaethau hyn yn arbennig o anodd eu lleoli, gan ei fod yn effeithio ar y gymuned leol ac yn gwneud cynnal hyd yn oed lleoliadau llety dros dro yn anodd. Mae canfyddiad bod gan rai landlordiaid bryderon o roi llety i fenywod sy'n defnyddio sylweddau a bod y grŵp hwn yn cael ei stigmateiddio. Byddai gwaith gwell amlasiantaethol yn lliniaru'r perygl hwn ac o bosibl tynnu rhwystrau i dai. Byddai hefyd yn ddefnyddio ystyried dulliau lleihau niwed ehangach a pha gefnogaeth sydd ei hangen i'r rhaid cael eu rhoi ar waith.

Cyfiawnder

Un o'r rhwystrau mwyaf i fenywod sy'n gadael y carchar yw ar ddiwrnod eu rhyddhau nid ydynt yn gwybod lle maen nhw'n cysgu'r noson honno ac mae gan lawer o fenywod sy'n gadael y carchar ychydig neu ddim o adnoddau ariannol, sy'n golygu eu bod mewn perygl o gael eu camfanteisio. Mae stigma a gwahaniaethu sy'n effeithio ar eu gallu i ganfod tai â chymorth ac nid yw llawer o ddewisiadau yn gefnogol i barhau eu bywydau heb gyffuriau sydd wedi'i gyflawni y tu mewn i'r carchar, os ydynt yn cael eu rhyddhau'n gynnar trwy'r bwrdd prawf. Bydd angen am feddyginiaeth ar lawer o fenywod sy'n gadael y carchar a byddant angen cofrestru gyda meddyg teulu ar ddiwrnod gadael y carchar, a all hefyd fod yn anodd. Mae gan lawer o fenywod ar gael eu rhyddhau o'r carchar rwydweithiau cymorth cyfyngedig a gall hyn arwain at unigedd a bregusrwydd uwch i ddigartrefedd. Gall menywod â phlant, sydd â phlant wedi'u tynnu oddi wrthynt dros dro, wynebu heriau ychwanegol i ddod o hyd i dai sy'n diwallu eu hanghenion teuluol a gallan fod wedi'u dal mewn cylch dieflig lle na allant gael mynediad at eu plant (sy'n ffactorau amddiffynnol), gan nad oes ganddynt dai addas, ond eu bod yn cael eu dosbarthu fel person sengl gan nad oes ganddynt warchodaeth dros eu plant felly ni allant gael llety mewn llety teuluol. Mae'r cynllun rhyddhau cynnar i greu mwy o lefydd yn y carchar wedi rhoi straen ychwanegol ar wasanaeth sydd eisoes â gofyn amdano. Yng Nghasnewydd nid oes unrhyw allgymorth prawf. Mae'r gwaith hwn yn ategu at gyfarfodydd misol i fraenaru menywod sy'n amlasiantaethol i ystyried dewisiadau tai a chymorth cyn y rhyddhau. Mae hwn yn grŵp a gynrychiolir yn dda.

Mewnfudo

Un o'r heriau mwyaf i ymddangos yw gweledded menywod ethnigmewn gwasanaethau. Roedd hyn yn hynod annisgwyl, gan mai Casnewydd yw'r ail ddinas amrywiol ethnig yng Nghymru. Mae diffyg hyder yn y system ac ym 1995, ffurfiwyd BAWSOyng Nghaerdydd ac mae bellach yn gweithio ar draws Cymru, gan roi cymorth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gallai cyfathrebu lle mae Saesneg yn iaith dramor fod yn anodd ac mae gan bobl ddiffyg hyder wrth siarad â gwasanaethau. Mae'r ymddiriedaeth yn y system yn bwysig gan fod enghreifftiau o ragfarn ddiarwybod sydd angen eu hateb ar draws gwasanaethau, a all arwain i ddiffyg ymddiriedaeth yn y system ac ofn gofyn am help. Mae menywod sy'n dod trosodd ar fisâu priodasol yn arbennig o agored i niwed gan nad oes ganddynt hawl i gyllid cyhoeddus. Mae sensitifrwydd diwylliannol y gallai rhai menywod deimlo cywilydd ar eu teulu trwy ofyn am help. Nid yw llawer o wasanaethau wedi'u sefydlu i gefnogi anghenion diwylliannol a chrefyddol, yn dieithrio'r menywod hynny sy'n dod ymlaen am help ymhellach. Mae'r ofn o gwmpas statws mewnfudo yn cymryd blaenoriaeth ar lesiant a cheisio cymorth o ofn cael eu hallgludo.

Yn gryno, mae'r heriau a wynebai menywod sy'n profi digartrefedd wedi'u plethu'n ddwfn â materion systemig fel anghydraddoldeb rhywiol, ansefydlogrwydd economaidd ac ynysu cymdeithasol. Trwy gydol y bennod hon, rydyn ni wedi archwilio'r achosion o fod yn agored i niwed unigryw mae menywod yn dod ar eu traws, gan gynnwys peryglon uwch o drais, trafferthion iechyd meddwl, a rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau priodol.

Mae'r heriau hyn trwy gydol y bennod hon yn tanlinellu yr angen brys am ymyriadau wedi'u teilwra sy'n blaenoriaethu diogelwch a llesiant menywod. Mae cyfle i ddatblygu comisiynu integredig er mwyn datblygu gwasanaethau sensitif i rywedd sy'n ateb amgylchiadau penodol a wynebir gan menywod mewn argyfwng. Cydnabuwyd nad oes darpariaeth dros nos sy'n sensitif i rywedd ar gyfer menywod yng Nghasnewydd. Mae menywod sy'n profi digartrefedd yn wynebu perygl uwch o drais a chamfanteisio. Gall darparu lle diogel i gael saib helpu liniaru'r straen a thrawma a gysylltir â digartrefedd. Mae hyn yn arbennig o bwysig i fenywod a allai fod wedi profi trais neu gam-drin.

Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod partneriaid ar draws Casnewydd yn cydweithredu i greu atebion sy'n grymuso menywod. Trwy feithrin dealltwriaeth ddyfnach o'r heriau hyn ac eiriol dros newid systemig, gallwn ddechrau tynnu'r rhwystrau sy'n parhau digartrefedd ymysg menywod yn ddiddiwedd.

Pennod Chwech: **Ymarfer Gorau**

Mae gwasanaethau ar gyfer ateb digartrefedd ymysg menywod yn canolbwyntio ar gymorth, diogelwch a grymuso cynhwysfawr.

1. **Gofal Ystyriol o Drawma:** Dylai gwasanaethau gydnabod effaith trawma ar fywydau menywod, drwy ddarparu amgylchedd diogel a chefnogol sy'n meithrin gwella.
2. **Rhaglenni Penodol i Rywedd:** Rhaglenni wedi'u teilwra sy'n diwallu anghenion unigryw menywod, gan gynnwys materion yn ymwneud â thrais domestig, iechyd meddwl, a rhianta.
3. **Dull Tai yn Gyntaf:** Blaenoriaethu mynediad at dai sefydlog heb rag-amodau, yn caniatáu i fenywod ateb problemau eraill, megis cyflogaeth ac iechyd, unwaith maent wedi cael lle diogel i fyw.
4. **Gwasanaethau Cymorth Cynhwysfawr:** Cynnig mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, hyfforddiant am swydd, a gofal plant i helpu menywod adennill sefydlogrwydd ac annibyniaeth.
5. **Diogelwch:** Sicrhau bod llety yn darparu amgylchedd diogel, gan gynnwys mesurau i tal trais ac aflonyddu.
6. **Cefnogaeth rhwng Cymheiriaid ac Adeiladu Cymunedol:** Creu cyfleoedd i fenywod gysylltu, rhannu profiadau, a chefnogi ei gilydd, gan feithrin ymdeimlad o gymuned.
7. **Gwasanaethau Cymwys Diwylliannol:** Adnabod ac ateb gwahanol gefndiroedd a phrofiadau menywod, gan gynnwys ystyriaethau ar gyfer hil, ethnigedd, rhywioldeb, ac anabledd.
8. **Eiriolaeth a Chymorth Cyfreithiol:** Darparu help gyda phroblemau cyfreithiol, fel llywio drwy hawliau tai neu caffael budd-daliadau, i rymuso menywod yn eu sefyllfaoedd.
9. **Allgymorth ac Ymgysylltu:** Estyn allan yn weithredol i fenywod a allai fod yn betrusgar i geisio help, gan ddefnyddio rhwydweithiau cymunedau dibynadwy er mwyn adeiladau perthnasau.
10. **Dull cyfannol:** Ateb achosion sylfaenol o ddigartrefedd, gan gynnwys tlodi, diffyg tai fforddiadwy ac anghydraddoldebau systemig, trwy eiriolaeth a gwaith polisi.

Gall rhoi ar waith yr ymarferion gorau hyn wella canlyniadau i fenywod sy'n profi digartrefedd yn sylweddol, gan eu galluogi i gyflawni sefydlogrwydd a llwyddiant hirdymor. Er bod gan Casnewydd lawer o wasanaethau sy'n defnyddio'r dulliau hyn, maent yn parhau yn fratiog ac yn aml gyda diffyg canolbwyntio yn benodol ar rywedd. Mae angen dybryd i ehangu ymarferion sy'n ystyriol o drawma ac adeiladu ymddiriedaeth ar draws pob sector.

Mae cyfle o gyflenwi gwasanaethau cofleidiol sy'n ystyriol o drawma trwy gomisiynu sy'n integredig, yn cael ei arwain gan anghenion ac yn seiliedig ar gryfderau, gan alinio'r strategaeth VAWDASV genedlaethol a chefnogi ymateb yr holl systemau.

Pennod Saith: **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Yn seiliedig ar y dadansoddiad o heriau presennol a wynebir gan fenywod sy'n profi digartrefedd a'r rhai mewn perygl o ddigartrefedd, mae llawer o argymhellion allweddol yn ymddangos.

"Dw i'n fod dynol... Dw i'n fod dynol a redodd i ffwrdd pan oeddwn i yn fy arddegau achos rô'n i'n cael fy ngham-drin ac ers hynny, dw i'n teimlo fy mod i'n cael fy nghosbi am hyn. Dyw byw ar y strydoedd ddim yn le diogel i fod. Dydych chi byth yn cysgu'n iawn. Dw i ddim hyd yn oed yn cofio pan ges i noson lawn o gwsg achos mae gen i ofn a gorfod fod yn ofalus bob tro dw i'n rhoi fy mhen i lawr. Dw i'n wastad yn meddwl a yw'r bobl sy'n cerdded heibio imi yn meddwl sut byddai hi i fod yn fy esgidiau gwlyb, drewllyd - hynny ydy, pan oedd gen i esgidiau. Y diwrnod o'r blaen wnes i eu tynnu nhw a'i rhoi nhw i lawr wrth ochr fy mhlanced ac mi wnaeth rhywun eu cymryd nhw. Pa mor ddrwg ydy bywyd pan fydd rhywun hyd yn oed yn dwyn fy esgidiau"

Mae comisiynu gwasanaethau digartrefedd i fenywod angen dull integredig wedi'i deilwra sy'n ateb y profiadau a heriau penodol a wynebir gan fenywod. Mae llwybrau menywod i ddigartrefedd yn aml yn wahanol i ddynion, a gallant fod â chyfraddau uwch o drawma, cam-drin domestig a thrais rhywiol a bod yn agored i'r perygl o ddigartrefedd. Mae'r 'Adran Gryno' yn crynhoi argymhellion allweddol y ddogfen hon.

1. Cynnal Asesiad Anghenion Penodol i Rywedd

Mae angen ar yr holl bartneriaid i gyd-weithio er mwyn deall yr achosion sylfaenol, trwy adnabod ffactorau sy'n cyfrannu at ddigartrefedd menywod, gan gynnwys trais domestig, cam-drin rhywiol, tlodi, problemau iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, ac ansicrwydd tai.

Er mwyn deall yr achosion sylfaenol mae angen i gasglu data sydd wedi'i ddatgrynhoi yn ôl rhyw a sicrhau bod data yn cael ei dorri i lawr yn ôl rhyw er mwyn amlygu tueddiadau penodol i fenywod, megis digartrefedd cudd (menywod yn aros gyda ffrindiau neu mewn tai ansefydlog er mwyn osgoi bod yn ddigartref ar y stryd).

Mae'r ddogfen hon wedi ein helpu i ddeall yr achosion sylfaenol. Mae hefyd wedi amlygu bod llawer i'w wneud yn nhermau casglu data. Mae'n anodd cyrchu data defnyddwyr gwasanaethau wedi'u torri i lawr yn ôl rhywedd ac ethnigedd. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd adnabod yr anghydraddoldebau mewn cyfraddau a phrofiadau o ddigartrefedd ac mae hi wedi bod yn anoddach amlygu peryglon a heriau penodol a wynebir gan wahanol grwpiau yng Nghasnewydd. Mae hefyd yn golygu ei bod yn anoddach cynllunio ymyriadau wedi'u targedu a chomisiynu gwasanaethau er mwyn diwallu'r anghenion unigryw mae menywod yn eu profi, ac mewn perygl o, ddigartrefedd.

Byddai bod â set ddata gynhwysfawr yn helpu olrhain cynnydd a monitro tueddiadau dros amser er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd ymyriadau. Mae angen gweithio gyda phob gwasanaeth er mwyn datblygu casglu data. Mae rhaid inni fod yn ddewr a gosod canlyniadau lleol sy'n benodol i rywedd a datblygu dangosyddion perfformiad sy'n gysylltiedig â digartrefedd menywod i mewn i gontractau gwasanaeth, megis sefydlogrwydd tai, canlyniadau iechyd a lleihad mewn trawma neu gamdriniaeth. Bydd canlyniadau'r cyfrifiad a'r bylchau yn y data oddi mewn i'r adroddiad hwn yn cefnogi'r datblygiad o ddangosyddion perfformiad.

Bydd Datblygu Cyfrifiad o Ddigartrefedd Menywod ar draws Casnewydd yn cefnogi codi ymwybyddiaeth, adnabod anghenion drwy gasglu pellach o ddata a helpu mesur y problemau a deall gwir gwmpas yr her. Bydd cynnal ail gyfrifiad yn ein helpu olrhain newidiadau. Bydd y cyfrifiad yn helpu ni ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau, ond mae rhaid inni fynd ymhellach a chynnwys menywod mewn cynllunio, cyflenwi, a gwerthuso gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu eu gwir anghenion. Gall eu mewnbwn helpu teilwra gwasanaethau i ffitio eu profiadau a'u heriau'n well.

2. Gwasanaethau Ystyriol o Drawma gyda'r Fenyw yn Ganolog

Mae angen inni ddatblygu modelau gofal ystyriol o drawma sy'n adnabod ac yn ymateb i effeithiau trawma. Mae llawer o fenywod digartref wedi profi trawma sylweddol, gan gynnwys trais domestig neu gamdriniaeth yn ystod eu plentyndod.

Mae llefydd sy'n sensitif i rywedd yn bwysig iawn ac rydyn ni angen creu amgylcheddau menywod yn unig er mwyn sicrhau diogelwch a chysur, yn arbennig i oroeswyr camdriniaeth a allai deimlo'n anniogel mewn gwasanaethau lle mae rhywiau'n gymysg. Mae cyfle i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu darpariaeth dros nos i fenywod yn ystod gaeaf 2024/25. Nid yw darparu llety dros nos ar gyfer menywod sy'n cysgu allan dim ond ar gyfer cynnig lle i gysgu; mae'n elfen hanfodol o ymateb tosturiol ac effeithiol i ddigartrefedd, wedi'i hanelu at hybu diogelwch, iechyd, a sefydlogrwydd hirdymor.

Mae dulliau sy'n rhoi'r person wrth galon y mater yn hanfodol er mwyn teilwra ymyriadau i anghenion unigol menywod, gan ystyried ffactorau fel iechyd meddwl, cyfrifoldebau teuluol, a thrawma blaenorol.

Mae'r adroddiad hwn wedi adnabod bod sefydliadau'n darparu ar gyfer ymarfer sy'n ystyriol o drawma, ond mae angen inni gau'r bwlch a sicrhau bod yma newid diwylliannol. Bydd pob partner sy'n hunan-asesu yn erbyn fframwaith Llywodraeth Cymru sy'n ystyriol o drawma, a datblygu cynlluniau hyfforddi i'w plannu mewn ymarfer sy'n ystyriol o drawma yn cefnogi newid diwylliannol.

Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cynnig integreiddio gwasanaethau iechyd ar gyfer menywod digartref sy'n wynebu anghydraddoldebau iechyd sylweddol. Nid yw'r gwasanaeth yn cael ei staffio'n ddigonol i gyflenwi gwasanaeth trwy gydol Gwent, ac mae hyn yn golygu nad oes adnodd pwrpasol ychwanegol ar gyfer Casnewydd sydd â'r boblogaeth ddigartrefedd uchaf. Mae'r gwaith yn ddwys ac

mae wedi golygu ei fod wedi bod yn heriol i gadw staff. Mae'r gwasanaeth wedi mabwysiadu dull newydd o gyflogi nyrsys iechyd meddwl a all weithio mewn ymarfer ystyriol o drawma. Mae'r gwasanaeth yn 9-5pm, ond oherwydd natur y menywod sy'n agored i niwed mae'r gwasanaeth yn cyd-weithio â nhw, byddai shifftiau gyda'r nos o ddarpariaeth allgymorth yn darparu gwasanaeth tecach. Mae Asesiad o Anghenion Iechyd Cynhwysiant yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2025 a fydd yn llywio'r gwaelodlin a deall yr angen.

Mae nifer cyfyngedig o wasanaethau allgymorth, gyda chnewllyn o staff a oriau gwaith cyfyngedig. Bydd llawer o fenywod digartref yn aros yn ddirgel neu'n osgoi gwasanaethau traddodiadol oherwydd ofn neu gywilydd. Rydyn ni angen ystyried comisiynu timau allgymorth integredig i ymgysylltu â menywod ar y stryd, mewn llochesau, neu mewn sefyllfaoedd tai anniogel, a chynnig pwyntiau hyblyg â bar isel i'w cefnogi.

3. Cymorth Trais a Cham-drin Domestig

Mae angen cymorth arbenigol ar gyfer goroeswyr camdriniaeth; mae llawer o fenywod yn dod yn ddigartref oherwydd trais domestig. Rydyn n i angen comisiynu gwasanaethau sy'n cynnwys cymorth mewn argyfwng, help cyfreithiol, a gwasanaethau sy'n ymgorffori modelau therapiwtig cyfannol o well nad ydynt yn cael eu cyfyngu gan amser. Mae rhaid inni ddarparu mwy o letyau diogel i'r menywod hynny sy'n cael eu camfanteisio'n rhywiol gan ddefnyddio'r model bresennol a ddatblygwyd gan Cymorth i Fenywod Cyfannol (mae Tŷ Arcadia yn darparu pum gwely fel rhan o'r gwasanaeth Horizon). Mae darparu llety diogel â staff, lle gall menywod deimlo'n ddiogel, yn arbennig rhai sy'n dianc rhag drais neu gamfanteisio'n holl-bwysig i adeiladu ymddiriedaeth.

Mae'r adroddiad hwn wedi nodi'r diffyg cymorth argyfwng galw heibio. Er mwyn sicrhau ein bod yn ataliol, byddwn yn treialu cyfnod gweithredu gweithiwr ymyriad cynnar i weithio gyda menywod sy'n profi trais, cam-drin domestig a thrais rhywiol, er mwyn deall effaith swydd o'r fath.

Rydyn ni angen comisiynu gwasanaethau integredig sy'n cydlynu rhwng gwasanaethau digartrefedd a sefydliadau cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau bod menywod sy'n dianc rhag trais yn gallu cyrchu llety yn gyflym a derbyn cymorth parhaus (e.e. cwnsela, cymorth cyfreithiol, a gorchmynion diogelu). Rydyn ni angen gweithio â Llywodraeth Cymru a chefnogi galwadau gwasanaethau arbenigol i dynnu llety lloches o'r rhwystrau deddfwriaethol a grëwyd gan y Ddeddf Rhentu Tai (Cymru) 2016.

4. Mynediad at Ddewisiadau Tai

Mae angen yng Nghasnewydd i ddatblygu a blaenoriaethu rhaglenni ailgartrefu cyflym, i sicrhau gall menywod newid yn gyflym o ddigartrefedd neu amodau byw anniogel i dai diogel, hirdymor.

Er mwyn darparu modelau tai gwahanol, mae rhaid cydnabod bod anghenion tai menywod yn amrywio; efallai bydd rhai angen lloches mewn argyfwng a llety, tra bydd eraill angen tai â chymorth yn y tymor hirach. Rydyn ni angen sicrhau ystod o atebion tai, gan gynnwys tai trosiannol a thai â chymorth parhaol.

Mae angen sicrhau bod llety sy'n gyfeillgar i deuluoedd a bod gwasanaethau tai yn gallu darparu ar gyfer menywod â phlant trwy ddarparu llety teuluol, fel nad ydynt yn cael eu gwahanu o'u dibynyddion a gallant gefnogi'r blynyddoedd cynnar a'r dechrau gorau mewn bywyd.

Mae cyfle gwych i ddatblygu'r 'Llwybr Tai Menywod' gyda Tai Pobl a Chyngor Dinas Casnewydd sy'n cyfyngu ar y rhag-amodau, gan ganiatáu i fenywod ateb problemau eraill, fel cyflogaeth ac iechyd, unwaith maen nhw wedi canfod lle diogel i fyw.

5. Ataliad ac Ymyriad Cynnar

Targedu ymyriad cynnar: Adnabod menywod mewn perygl o ddigartrefedd, fel y rhai sy'n wynebu dadfeddiannu, toriadau mewn perthnasau, neu gam-drin domestig a thrais rhywiol, a chynnig gwasanaethau ataliol (e.e.

cyngor ar dai, cefnogaeth ariannol, neu gymorth cyfreithiol). Bydd gan y cyfnod treialu gweithredu gweithiwr ymyriad cynnar oddi mewn i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn canolbwyntio ar gymorth ymyriad cynnar.

Er mwyn dadstigmateiddio a chodi ymwybyddiaeth, mae angen arnon n i ddatblygu ymgyrchoedd addysgu'r cyhoedd gan ganolbwyntio mannau gwan penodol menywod sy'n profi digartrefedd, helpu i ddadstigmateiddio eu profiadau, ac annog chwilio cynnar am help. Byddwn ni'n datblygu ein hymgyrch cyntaf erbyn mis Mai 2025 gydag arddangosfa o luniau 'Menywod Casnewydd' yn arddangos siwrneiau menywod sydd wedi profi digartrefedd a dangos bod adferiad yn bosibl.

Bydd hyn yn cael ei ddilyn gan ymgyrch 'Cerddwch yn fy Esgidiau' yn ddiweddarach yn 2025 er mwyn rhannu straeon menywod, torri stigma a newid canfyddiadau digartrefedd menywod yng Nghasnewydd.

6. Ateb Anghenion Penodol Menywod ar y Cyrion

Mae'r adroddiad hwn yn dangynrychioliadol o anghenion diwylliannol a chefndiroedd ieithyddol menywod LHDTC+ yng Nghasnewydd. Mae darn o waith penodol i ymgymryd ag ef er mwyn deall anghenion menywod ar y cyrion, er mwyn inni ddatblygu gwasanaethau sy'n sensitif i ddiwylliant sy'n hygyrch i fenywod o wahanol gefndiroedd diwylliannol ac ieithyddol, a chynnig cymorth wedi'i deilwra i'r heriau penodol a wynebir gan fenywod lleiafrifoedd ethnig a mudol. Byddwn yn ymgymryd â gwaith pellach gyda BAWSO.

Mae cydnabod y gallai menywod LHDTC+ wynebu rhwystrau unigryw i gyrchu gwasanaethau ac y gallant wynebu digartrefedd yn wahanol, yn bwysig er mwyn sicrhau rydyn ni'n darparu gwasanaethau sy'n gynhwysol ac yn cadarnhau eu hunaniaethau. Mae hyn angen gwaith pellach.

Casgliad

Mae Gweithgor Casnewydd Homewards ar Ddigartrefedd Menywod wedi dangos ein bod yn gryfach gyda'n gilydd i ddarparu gwasanaethau os ydyn ni'n cydweithio ar draws sectorau. Mae digartrefedd yn gysylltiedig â materion cymdeithasol eraill, megis iechyd meddwl, cyfranogiad y system droseddol, neu ddefnydd o sylweddau. Mae angen inni barhau i feithrin partneriaethau ar draws gwasanaethau iechyd, cyfiawnder troseddol, awdurdodau tai, a systemau lle er mwyn darparu gofal di-dor. Mae angen comisiynu gwasanaethau cofleidiol sy'n darparu cymorth cyfannol, gan gynnwys gofal iechyd meddwl, triniaeth am gamddefnyddio sylweddau, cymorth cyflogaeth, cwnsela ariannol, a help gyda budd-daliadau a hawliadau.

- Mae thaid blaenoriaethu sicrhau diogelwch a chyfrinachedd ym mhob lleoliad gwasanaethau.
- Sicrhau preifatrwydd menywod a diogelwch data personol yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n dianc rhag sefyllfaoedd o gam-drin.

Mae partneriaethau gyda darparwyr arbenigol yn thema sy'n rhedeg trwy'r holl argymhellion. Rydyn ni angen gweithio gyda darparwyr gwasanaethau penodol i fenywod er mwyn cydweithredu â sefydliadau digartrefedd menywod arbenigol, yn arbennig y rhai sydd â phrofiad o gefnogi goroeswyr cam-drin domestig, trais rhywiol neu fasnachu fel Cymorth i Fenywod Cyfannol a'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu.

Er mwyn rhoi diwedd ar ddigartrefedd, mae angen sicrhau cyllid hirdymor trwy sicrhau ffrydiau ariannu cynaliadwy ar gyfer gwasanaethau digartrefedd menywod i ddarparu sefydlogrwydd a pharhad gofal, gan sicrhau y gall menywod fynd o gymorth mewn argyfwng i atebion hirdymor. Mae hyn yn golygu symud y ffocws o ymateb brys i ataliad hirdymor trwy fuddsoddi mewn tai fforddiadwy, byw â chymorth, a dulliau tai yn gyntaf ar gyfer menywod sy'n gadael digartrefedd.

Nid mater o ddarparu lloches yn unig yw rhoi diwedd ar ddigartrefedd menywod; mae angen dull cynhwysfawr, amlochrog sy'n ateb y problemau isorweddol sy'n cyfrannu at yr argyfwng hwn. Trwy adnabod yr heriau unigryw a wynebir gan fenywod, gall y partneriaid yng Nghasnewydd gefnogi comisiynu integredig sy'n cynllunio ymyriadau wedi'u targedu sy'n blaenoriaethu eu hanghenion. Mae ymdrechion cydweithredol ar draws y rhanddeiliaid a thrwy gynnwys menywod digartref yng nghynllunio, cyflenwi a gwerthuso gwasanaethau er mwyn sicrhau ei bod yn diwallu eu gwir anghenion, yn ddull hanfodol er mwyn creu amgylchau cefnogol sy'n grymuso menywod i adennill sefydlogrwydd ac annibyniaeth.

Gydag ymdrech gydunol, gallwn weithio tuag at ddyfodol lle mae pob menyw yng Nghasnewydd yn cael y cyfle o gartref diogel a sefydlog, yn torri'r cylch o ddigartrefedd a'i heriau cysylltiedig am byth.

Estynnwn ein diolchiadau i bawb a chwaraeodd rôl wrth greu'r adroddiad hwn. Hoffem ddiolch a'r holl bartneriaid sydd wedi bod yn rhan o'r grŵp menywod:

Grŵp Digartrefedd Menywod

- Helen Roper – Cadeirydd – Arweinydd Cyflenwi Lleol Homewards Casnewydd
- Bevleigh Evans – Cyfarwyddwr Cysylltiol Iechyd Poblogaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Joanna Parry – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth – Cymorth i Fenywod Cyfannol
- Amy Thomas - Cynghorydd Arwain Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin domestig, a thrais RhywiolGwen(VAWDASV) Gwent
- Helen Jones – Cydlynydd Cysgwyr Allan – Cyngor Dinas Casnewydd
- Amy Jones – Rheolwr Gwasanaethau Cam-fanteisio – Horizon - Cymorth i Fenywod Cyfannol
- Samantha Howells - Rheolwr Adfywio Ardal - Pobl
- Niki Gould - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol Menywod – Ymddiriedolaeth Nelson

Tîm Golygyddol

- Tracy Daszkiewicz – Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus a Pharneriaethau Strategol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Anna Pennington - Pennaeth Ymchwil Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Anna Morgan – Strategydd Iechyd Cyhoeddus, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Helen Roper – Cadeirydd – Arweinydd Cyflenwi Lleol Homewards Casnewydd
- David Walton - Pennaeth Tai a Chymunedau, Cyngor Dinas Casnewydd
- Joanna Parry – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth – Cymorth i Fenywod Cyfannol
- Coleen Jones - Rheolwr Aelodaeth a Gwasanaethau – Cymorth i Ferched Cymru

Cyfranwyr

- Natasha Grimshawe - Cydlynydd Gateway, Cyngor Dinas Casnewydd
- Nichola Zerk - Cydlynydd Strategol Tai a Digartrefedd, Cyngor Dinas Casnewydd
- Charlotte Percival – Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Gwent
- Star Mayo - Nyrs Hŷn, Gwasanaeth Cynhwysiant Iechyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bronwen Davies - Digartrefedd BOOST a Chadeirydd y Grŵp Cyd-ddigwyddiad - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Catherine Docherty - Rheolwr Gweithrediadau Ardal - Byddin yr Iachawdwriaeth
- James Attwood - Ymgynghorydd Gwybodaeth Iechyd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Gemma Lisa Humphreys - Pennaeth Gwasanaeth, Ymddiriedolaeth Nelson
- Peta Daniels - Swyddog Cefnogi Cynllunio Pobl a Gwybodaeth, Cyngor Dinas Casnewydd
- Susan Turner-Jones Swyddog Cymorth Gateway, Cyngor Dinas Casnewydd

Cyfeiriadau

[1] Gwefan Homeward "Amdanom ni - Y Sefydliad Brenhinol - Homewards" cyrchwyd ar 23ain Hydref 2024

[2] Bimpson, E. Green, H. K, Reeve (2021) "Women, homelessness and violence: what works?" Canolfan Effaith Digartrefedd

[3] Price, H. a Glorney, E. (2022), "The challenge to survive: trauma, violence and identity in the lived experience of homeless women", The Journal of Forensic Practice, Cyf. 24 Rhif 4, tt. 436

[4] Milburn, O. 2022. Understanding the Barriers to Mental Health Services from a Lesbian, Gay, Bisexual, Transgender and Queer (LGBTQ+) Homeless Perspective. Traethawd Doethuriaeth Proffesiynol Prifysgol Dwyrain Llundain Ysgol Seicoleg https://doi.org/10.15123/uel.8v61x

[5] Strategaeth-Rhaglen Cymorth Tai-(HSP)-2022-2026-Datganiad-o-Angen-DIWEDDARWYD.pdf

[6] Strategaeth-Rhaglen Cymorth Tai-(HSP)-2022-2026-Datganiad-o-Angen-DIWEDDARWYD.pdf

[7] (Aelwydydd y daethpwyd o hyd i lety dros dro iddynt yn ôl y math o lety a'r math o aelwyd (Ar ôl 2015-16) (llyw.cymru).

[8] Mae bron i 2.2 filiwn o fenywod yn y DU yn cael trafferth i gael dau ben llinyn ynghyd mewn swyddi cyflogau isel | Sefydliad Cyflog Byw

[9] Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 (llyw.cymru)

[10] Y Grŵp Gweithredol Cymru Gyfan ar gyfer Menywod sy'n cael eu Hecsbloetio'n Rhywiol

[11] Ymchwiliad i gysgu ar y stryd yng Nghymru (senedd.cymru)

[12] (cynllun-gweithredu-cysgu-allan".pdf (llyw.cymru)

[13] Rhoi diwedd ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 (llyw.cymru)

[14] https://welshwomensaid.org.uk/cy/what-we-do/campaigning/toolkit-on-the-rights-of-vawdasv-survivors-subject-to-immigration-control/

[15] Strategaeth-Rhaglen Cymorth Tai-(HSP)-2022-2026-Datganiad-o-Angen-DIWEDDARWYD.pdf)

[16] The-gendered-impact-of-the-cost-of-living-crisis.pdf (wbg.org.uk)

[17] Strategaeth-Rhaglen Cymorth Tai-(HSP)-2022-2026-Datganiad-o-Angen-DIWEDDARWYD.pdf

[18] canllawiau- diwygiedig-ar-gyfer-byrddau-cynllunio-ardal-camddefnyddio-sylweddau-2017.pdf (llyw.cymru)

[19] Ffeithiau ac Ystadegau - Lloches

© 2024 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cedwir pob hawl.

Cyswllt: Bevleigh.Evans@wales.nhs.uk

Dylunydd: Jenney Creative